

Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru)

Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Rhan 1

Cyflwyniad.....	3
Bwriad Polisi 1 – Sefydlu ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir newydd ...	5
Cefndir	5
Opsiynau	11
Opsiwn 1 - Gwneud Dim	12
COSTAU.....	13
MANTEISION	16
Opsiwn 2 - Cydwasanaeth Gweinyddol	18
COSTAU.....	20
MANTEISION	28
Opsiwn 2: Tablau Cryno	31
Opsiynau 3a a 3b – Uno Awdurdodau Lleol.....	32
Opsiwn 3a – 12 o Awdurdodau Lleol	32
Opsiwn 3b - Wyth neu Naw Awdurdod Lleol	32
COSTAU.....	35
MANTEISION	57
Opsiwn 3: Crynodeb o'r Manteision	66
Opsiwn 3a: Tablau Cryno	67
Opsiwn 3b: Tablau Cryno	69
Yr Opsiwn a Ffefrir	72
Rhestr o Dablau	74

Cyflwyniad

Mae Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) yn cynnwys amrywiaeth eang o fwriadau polisi. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) drafft hwn yn nodi'r ystod o opsiynau a ystyriwyd ar gyfer pob bwriad polisi ac yn asesu eu costau a'u manteision posibl. Mae hefyd yn cynnwys tabl cryno o'r holl fwriadau polisi, yr opsiynau a ffeirir a chrynodeb o'r costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob un o'r opsiynau a ffeirir. Cyflwynir y costau a'r manteision perthnasol sy'n gysylltiedig â phob opsiwn polisi yn y prif AER drafft. Fodd bynnag, rhoddir rhagor o gyfrifiadau manwl a thybiaethau ategol yn Atodiad A a B.

Aseswyd y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn dros gyfnod o 10 mlynedd. Gan fod y rhaglen ddiwygio yn cynnwys uno Awdurdodau Lleol ni fyddai'n briodol ystyried y costau a'r manteision dros gyfnod cynllunio byrrach. Defnyddiwyd cyfnod cynllunio o 10 mlynedd drwy gydol yr asesiad effaith oni bai bod rhesymeg glir dros ddefnyddio amserlen amgen. Os oes rhesymeg o'r fath mae wedi'i hesbonio o fewn y bwriad polisi perthnasol.

Lle y bo'n briodol, cyflwynir y costau a'r manteision yn nhermau Gwerth Presennol Net (GPN) gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt o 3.5 y cant. Mae hyn yn cyd-fynd â'r canllawiau yn Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Y flwyddyn sylfaen ar gyfer cyfrifo pob Gwerth Presennol Net yw 2016-17.

Mae'r AER drafft hwn yn amcangyfrif y costau a'r manteision ar lefel Cymru gyfan ar gyfer pob opsiwn a nodir ym Mil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru). Nid yw'n ceisio rhagfynegi na mesur y penderfyniadau y gallai Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol sy'n bodoli eisoes ac Awdurdodau Cysgodol eu gwneud. Bydd yn ofynnol i Gyngorau Sir newydd gynnal asesiadau effaith pellach o'r penderfyniadau penodol y maent yn dewis eu gwneud ar ôl iddynt gael eu sefydlu, mae effaith y penderfyniadau posibl hyn y tu hwnt i gwmpas yr AER drafft hwn. Lluniwyd y drafft hwn yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, arbenigwyr technegol, academyddion, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac uwch swyddogion Awdurdodau Lleol.

Mae Asesiadau Effaith penodol hefyd wedi'u cynnal sy'n cwmpasu Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) yn ei gyfanrwydd. Cyhoeddwyd pob asesiad effaith a lle mae'r effaith yn uniongyrchol berthnasol i ddarpariaeth benodol, fe'i nodwyd o fewn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft perthnasol. Cynhaliwyd Asesiadau Effaith penodol o'r pynciau canlynol:

- Hawliau Plant
- Yr iaith Gymraeg
- Cydraddoldeb

Mae pob cost a mantais sydd wedi'u mesur o fewn yr AER drafft hwn yn seiliedig ar wybodaeth a data a oedd ar gael i Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyn ei

gyhoeddi. Lle y bo'n briodol nodwyd bod ein bod wrthi'n ceisio cael rhagor o ddata neu y caiff data eu diweddarau cyn llunio'r AER, a fydd yn ategu'r Bil pan gaiff ei gyflwyno i'r Cynulliad.

At ddibenion yr AER drafft hwn, gwnaed tybiaethau ynghylch cyllid llywodraeth leol yn y dyfodol. Nid yw hyn yn adlewyrchu bwriadau Llywodraeth Cymru. Caiff y senarios a gyflwynir yn yr AER drafft hwn eu diweddarau ar ôl i Llywodraeth y DU gyhoeddi Datganiad Hydref 2015.

Bwriad Polisi 1 – Sefydlu ardaloedd Llywodraeth Leol a Chynghorau Sir newydd

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol (AER) hwn yn ystyried effaith creu ardaloedd a Chynghorau Sir newydd. Mae Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bolisiâu arfaethedig, yn ogystal â sefydlu ardaloedd a Chynghorau Sir newydd, ac mae effeithiau economaidd y bwriadau polisi hyn wedi'u grwpio ac wedi'u hystyried yn Rhan 2 o'r AER drafft hwn.

Diben yr Asesiad Effaith hwn yw asesu effaith economaidd sefydlu set newydd o Gynghorau Sir fel y cynigir ym Mil drafft Llywodraeth Leol (Cymru). Felly, mae'n gwerthuso'r costau a'r manteision ar lefel Cymru gyfan, gan nodi'r opsiynau lefel uchel ac ystyried y costau a'r manteision posibl sy'n gysylltiedig â phob un o'r opsiynau hyn.

CEFNDIR

Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ("y Comisiwn") yn nodi'r angen am newid eang ei gwmpas ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus yn wyneb cyni ariannol a phwysau demograffig, tra bod disgwyliadau'r cyhoedd yn cynyddu.

Dadleuodd y Comisiwn na fyddai mân newidiadau yn ddigon ac, ar y gorau, y byddent yn gohirio'r anochel. Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â phwysau cynyddol cyni ariannol a newid demograffig yn arwain at sefyllfa lle na fydd digon o adnoddau ar gael i ateb y galw cynyddol am wasanaethau yn y dyfodol agos. Disgwylir i'r problemau systemig a nodwyd gan y Comisiwn waethygu ac y byddai'n anos mynd i'r afael â'r gwendidau. Nododd y Comisiwn fod angen cymryd camau brys a radical er mwyn creu Awdurdodau cryfach a all ateb yr heriau hynny a'u goresgyn yn well.

Y ddadl a gyflwynwyd gan y Comisiwn oedd y byddai llai o Awdurdodau mwy o faint yn gallu denu, cadw a datblygu arweinwyr yn well ac y gallai gynnal canolfannau corfforaethol cryfach a mwy effeithiol a sicrhau lefel o graffu ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a allai helpu i lywio gwelliant, lleihau'r galw am wasanaethau a llunio dull mwy ataliol o ddarparu gwasanaethau. Mae ceisio cyflawni hyn drwy gydweithredu a chydweithio rhwng Awdurdodau yn ychwanegu haen o gymhlethdod a llywodraethau a fyddai'n ormod o her i Awdurdodau Lleol cymharol fach a oedd yn wynebu'r gostyngiad hirdymor disgwyliedig mewn gwariant a'r galw cynyddol am wasanaethau.


Heriau Demograffig

Mae Awdurdodau Lleol yn wynebu amrywiaeth o heriau demograffig ynghyd â chynnydd sylweddol yn y galw am rai gwasanaethau a disgwyliadau uwch ymhlith y cyhoedd o ran ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau hynny. O'u gosod ochr yn ochr â phwysau ariannol mae hyn yn ei gwneud yn fwyfwy anodd darparu'r ystod bresennol o wasanaethau yn yr un ffordd i'r safonau a ddisgwylir gan y cyhoedd.

Mae poblogaeth Cymru yn cynyddu. Rhagamcenir y bydd disgwyliad oes yn cynyddu ac y bydd y gymhareb ddibyniaeth ar gyfer pobl hŷn yn cynyddu o ganlyniad i hynny. Gyda phobl hŷn yn ffurfio canran gynyddol o'r boblogaeth disgwylir i'r galw am wasanaethau preswyl a gofal cymdeithasol gynyddu, gan greu pwysau ychwanegol ar ran fawr o gyllidebau Awdurdodau Lleol.

Dangosodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus yr heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol drwy gymharu amcanestyniadau'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid o'r newidiadau i grant bloc Cymru¹ ochr yn ochr ag amcanestyniadau o dwf yn y boblogaeth dros 65 oed, rhwng 2011 a 2025.

Siart 1: Poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau mewn patrymau ariannu, rhwng 2011 a 2025



Gan ddefnyddio 2011 fel y flwyddyn sylfaen, dengys y siart uchod gynnydd yn y boblogaeth o flwyddyn i flwyddyn hyd at 2025, tra bod rhagolygon ariannu yn gostwng yn sylweddol yn y byrdymor.

Dylid ystyried y pwysau demograffig sy'n newid mewn amgylchedd lle mae'r galw am wasanaethau cyhoeddus yn cynyddu a lle mae disgwyliadau o ran ansawdd y

¹ Yr elfen wedi'i chlustnodi o'r Terfyn Gwariant Adrannol yr hyn y cyfeirir ato'n gyffredinol fel y "grant bloc". Dyma'r gyfran o'r gyllideb gyfan y mae gan Weinidogion Cymru ddisgresiwn llwyr yn ei chylch o ran ei ddyrannu i adrannau a gwasanaethau yng Nghymru. Fodd bynnag, nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw ddisgresiwn o ran cyfanswm y Terfyn Gwariant Adrannol a glustnodwyd.

gwasanaethau hynny yn cynyddu hefyd. Nododd y Comisiwn mai newid demograffig yw'r her fwyaf sylweddol sy'n wynebu Cymru yn y tymor canolig i'r hirdymor, o bosibl.

Er enghraifft, yng Nghastell-nedd Port Talbot mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cynyddu o 420 ar 31 Mawrth 2010 pan gasglwyd data am y tro cyntaf i 500 ar 31 Mawrth 2014. Roedd bron 5,470 o oedolion yn cael gwasanaethau cymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot ar 31 Mawrth 2015, sef cynnydd o bron un rhan o bump (19 y cant) o gymharu â 31 Mawrth 2007.

Mae i'r cynnydd hwn mewn rhannau gwahanol o'r boblogaeth oblygiadau ar gyfer amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus ac maent yn gosod rhagor o bwysau ar y cydweithredu sydd ei angen rhwng Awdurdodau Lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i sicrhau bod gwasanaethau yn gweithio'n effeithiol ar gyfer pobl mewn angen.


Patrymau Ariannu Diweddar

Dros y pum mlynedd ers 2010-11, mae'r refeniw craidd a gaiff Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru wedi gostwng mewn termau real (Cyllid Allanol Cyfun). Mae'r arian hwn yn ffurfio'r cyfraniad unigol mwyaf i gyfanswm yr incwm a gaiff Awdurdodau, er nad dyma'r unig ffynhonnell. Yn ystod tair blynedd gychwynnol yr Adolygiad hwn o Wariant diogelodd Llywodraeth Cymru Lywodraeth Leol rhag y lefel o ostyngiadau cyllidebol a welwyd yn Lloegr, gan sicrhau nad oeddent yn wynebu'r un lefel o doriadau. Fodd bynnag, os bydd mesurau cyni gan Lywodraeth y DU yn parhau, sy'n debygol o ddigwydd, mae'n bosibl y gallai Llywodraeth Leol yng Nghymru wynebu toriadau ariannol mwy parhaus dros y pum mlynedd nesaf yn debyg i'r rhai a welwyd gan lywodraeth leol yn Lloegr.


Er iddynt gael eu diogelu i ryw raddau rhag lefel y toriadau a welwyd yn Lloegr, mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru wedi wynebu heriau ariannol. Dengys y siartiau isod batrymau ariannu Cyllid Allanol Cyfun Awdurdodau Lleol² dros y pum mlynedd diwethaf.

² Cyllid Allanol Cyfun yw'r arian refeniw cyffredinol y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'n cyfateb i gyfanswm y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig a ailddosbarthwyd. Nid yw wedi'i glustnodi sy'n golygu bod gan Awdurdodau Lleol yr hyblygrwydd i wario'r arian hwn yn unol ag anghenion a blaenoriaethau lleol.

Siart 2: Cyfanswm Cymorth Llywodraeth Ganolog ar ffurf Cyllid Allanol Cyfun i Awdurdodau Lleol yng Nghymru³, yn Nhermau Arian Parod



Siart 3: Cyfanswm Cymorth Llywodraeth Ganolog ar ffurf Cyllid Allanol Cyfun i Awdurdodau Lleol yng Nghymru⁴, ym mhrisiau 2015-16



Cadarnhaodd adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*, fod sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi wynebu pwysau ariannol parhaus a'u bod wedi gorfod gwneud arbedion cost sylweddol yn dilyn adolygiadau Llywodraeth y DU o wariant yn 2010 a 2013. Rhwng 2010-11 a 2015-16 mae cyllideb Llywodraeth

³ Wedi'i addasu'n gronnol ar gyfer Trosglwyddiadau hyd at 2015-16


⁴ Wedi'i addasu'n gronnol ar gyfer Trosglwyddiadau hyd at 2015-16

Cymru, a ddyrennir iddi gan Lywodraeth y DU, wedi lleihau £1.3 biliwn mewn termau real.

Pwysau Ariannol yn y Dyfodol

Yn 2015-16 roedd cyllideb Cymru 8 y cant yn llai mewn termau real nag yr oedd yn 2010-11. Yn seiliedig ar amcanestyniadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, gallai cyllidebau fod yn wynebu gostyngiadau tebyg am weddill y degawd presennol.


Siart 4: Gwariant Llywodraeth y DU ar Wasanaethau Cyhoeddus



O ganlyniad i fesurau cyni parhaus Llywodraeth y DU, mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn wynebu pwysau ariannol sylweddol, ochr yn ochr â galw cynyddol am wasanaethau. Mae adnoddau yn brin a disgwylir iddynt barhau i fod yn brin yn y dyfodol agos wrth i Llywodraeth y DU barhau i leihau gwariant cyhoeddus.

Nid yw Llywodraeth y DU wedi nodi ei chynlluniau gwario ar gyfer adrannau'r llywodraeth yn y dyfodol eto ac, felly, ni ellir rhagfynegi'n gywir y senarios ariannu ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Ystyriwyd amrywiaeth o senarios, yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan Lywodraeth y DU a phatrymau ariannu dros y pum mlynedd diwethaf.

Siart 5: Senarios Ariannu o ran Cyllid Allanol Cyfun Awdurdodau Lleol⁵ yn y Dyfodol



Dengys y siart uchod, pe bai cyllid yn lleihau yn unol â'r gostyngiadau a welwyd yn ystod dwy flynedd olaf cyfnod yr adolygiad presennol o wariant, y gallai cyllid leihau fwy na £600 miliwn yn nhermau arian parod dros y pedair blynedd nesaf. Mae hyn yn her ddifrifol i Awdurdodau Lleol ac yn awgrymu, fel y credai Comisiwn Williams, na fyddai mân newidiadau yn ddigonol i ateb yr her hon. At hynny, nododd y Comisiwn yn glir na all Llywodraeth Leol fforddio aros am hinsawdd ariannol fwy ffafriol cyn gweithredu.

Hyd yn oed cyn dadansoddiad y Comisiwn o'r risgiau i adnoddau a gallu mewn Awdurdodau Lleol cymharol fach (yn erbyn cefndir o gyni ariannol parhaus a disgwyliadau uwch a galw cynyddol ymhlith y cyhoedd), mae Awdurdodau Lleol wedi sylweddoli bod angen gweithredu ar raddfeydd mwy ac wedi rhoi amrywiaeth o brosiectau cydweithredol neu gyd-brosiectau ar waith. Fodd bynnag, mae trefniadau cydweithredu o'r fath yn cyflwyno rhagor o heriau sy'n ymwneud â llywodraethu a chraffu, yn gosod pwysau ychwanegol o ran rheoli amser (yn enwedig pan ddelir yr awdurdod i wneud penderfyniadau gan Awdurdodau sy'n cymryd rhan mewn prosiect yn hytrach na'i ddirprwyo i'r prosiect cydweithredol) ac, felly, nid ydynt bob amser yn llwyddiannus a gallant gynyddu cymhlethdod ar gyfer Cynghorau a phartneriaid eraill.

Diwygio Llywodraeth Leol

Nododd Gweinidogion Cymru yn y ddogfen *Democratiaeth, Datganoli a Chyflawni*⁶ eu bod yn bwriadu diwygio Llywodraeth Leol, gweithredu ar argymhellion y

⁵ Cyllid Allanol Cyfun yw'r arian refeniw cyffredinol, nad yw wedi'i glustnodi, y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i Awdurdodau Lleol yng Nghymru ac mae'n cyfateb i gyfanswm y Grant Cynnal Refeniw ac Ardrethi Annomestig a ail-ddosbarthwyd.

⁶ <http://gov.wales/docs/dpsp/publications/140708-response-to-commission-cy.pdf>

Comisiwn a chyflwyno deddfwriaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r pecyn o ddiwygiadau yn cynnwys lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yng Nghymru drwy uno Ardaloedd Awdurdodau Lleol sy'n bodoli eisoes a'u Cynghorau er mwyn creu Siroedd newydd a'u Cynghorau, hyrwyddo bod yn fwyfwy agored, tryloyw ac atebol, atgyfnerthu trefniadau craffu a chreu democratiaeth fwy amrywiol.

Mae'r rhaglen ddiwygio yn eang ac yn cynnwys cyflwyno dau Fil o flaen Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Cyflwynwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf ym mis Ionawr 2015 ac mae'n gosod mecanwaith i ganiatáu peth gwaith paratoadol ar gyfer rhaglen o uno a diwygio ac mae'n cynnwys hefyd ddarpariaeth i hwyluso uno gwirfoddol cynnar dau neu fwy o Brif Awdurdodau Lleol erbyn mis Ebrill 2018. Cytunwyd y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) cyntaf gan y Cynulliad ar 20 Hydref 2015. Ar adeg ysgrifennu hyn, ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer uno gwirfoddol cynnar.

Mae cwmpas a chynnwys Bil Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) (h.y. yr ail Fil) a'r AER drafft hwn sy'n ei ategu yn tybio na cheir unrhyw geisiadau i uno'n wirfoddol ac y caiff pob rhaglen uno ei chyflawni drwy'r ail Fil. Felly, mae'r AER drafft hwn yn nodi effaith economaidd bosibl amrywiaeth o opsiynau gwahanol i gyflawni'r amcan hwn.

Opsiynau

Ystyriwyd pedwar opsiwn ar gyfer cyflawni'r bwriad polisi, sef:

- Opsiwn 1 - Gwneud Dim: Parhau â strwythur a fframwaith llywodraethu presennol Awdurdodau Lleol.
- Opsiwn 2 - Cydwasanaeth Gweinyddol: Osgoi uno Awdurdodau Lleol yn llwyr ond uno'r swyddogaethau gweinyddol ar lefel Cymru gyfan.
- Opsiwn 3a - Map y Comisiwn (Opsiwn 1): Uno rhai Awdurdodau Lleol er mwyn creu 12 o Awdurdodau Lleol.
- Opsiwn 3b - Uno rhai Awdurdodau Lleol er mwyn sefydlu wyth neu naw Awdurdod Lleol.

Opsiwn 1 - Gwneud Dim

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn newid strwythur na fframwaith llywodraethu presennol Llywodraeth Leol. Byddai'r 22 o Awdurdodau Lleol presennol yn parhau i fodoli'n ddigynfnewid, yn strwythurol ac yn gyfansoddiadol.

O dan Opsiwn 1 byddai'r Awdurdodau Lleol presennol yn wynebu'r galw cynyddol am wasanaethau yn erbyn cefndir anochel o gyllidebau sy'n lleihau. Byddai'n rhaid i'r 22 o Awdurdodau Lleol geisio ateb heriau o'r fath yn unigol o hyd. Er ei bod yn bosibl y gallai rhai Awdurdodau Lleol barhau i wneud arbedion effeithlonrwydd ar sail cyfyngu neu roi terfyn ar gyflenwi gwasanaethau dewisiol, lleihau'r gweithlu a thorri cyllidebau'n dameidiog, gallai fod yn anos i eraill â llai o adnoddau ariannol, gallu a chydnerthedd wneud hyn.

Yn ôl adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*⁷ gadawodd bron 8,000 o staff Awdurdodau Lleol rhwng mis Ebrill 2010 a mis Rhagfyr 2013. Yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth y DU disgwylir y gallai fod angen i Lywodraeth Leol yng Nghymru gyflawni'r lefel hon o arbedion ariannol unwaith eto dros gyfnod y cylch ariannu nesaf.

Felly, nid yw Opsiwn 1 yn rhoi'r modd i Awdurdodau Lleol fynd i'r afael â heriau ariannol yn y dyfodol nac yn nodi unrhyw weledigaeth strategol ar gyfer dyfodol Llywodraeth Leol yng nghyd-destun yr heriau hyn a heriau eraill a nodir yn yr adran ar y cefndir i'r AER drafft hwn. Mae Opsiwn 1 yn anwybyddu'r cyfle i sefydlu Awdurdodau Lleol mwy o faint y byddai ganddynt ddigon o adnoddau i wynebu'r heriau economaidd a chymdeithasol yn y dyfodol ac a fyddai'n ddigon cadarn i wneud hynny. At hynny, nid yw'r opsiwn hwn yn ystyried argymhellion y Comisiwn Williams i leihau cymhlethdod o fewn Llywodraeth Leol a'r sector cyhoeddus ehangach, meithrin galluedd arwain strategol neu wella trefniadau llywodraethu.

Mae corff annibynnol o dystiolaeth sy'n cadarnhau nad yw gwneud dim yn opsiwn hyfyw. Dwedodd y Comisiwn Williams y gall uno Awdurdodau Lleol ddisgwyl cyflawni rhwng £60 miliwn ac £80 miliwn o arbedion blynyddol, gan awgrymu fod diwygio strwythurol yn hanfodol at gyrraedd llywodraethu gwell, arweiniad a democratiaeth cryfach a pherfformiad gwell.

Cydnabu CIPFA yn eu hadroddiad, *The Transitional Costs, Benefits and Risks of Local Government Reorganisation*, y gellir cyflawni bron i £65 miliwn o arbedion drwy weithredu Opsiwn 1 y Comisiwn Williams o 12 Awdurdod Lleol.

Mae'r arbedion blynyddol hyn yn dyngedfennol er mwyn sicrhau bod Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gallu parhau i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus gwerthfawr ac arwain eu cymunedau, yn erbyn cefndir o gyllidebau sy'n gostwng a chyni parhaus Llywodraeth y DU. Y mae hefyd amrediad o fuddiannau heb fod yn

⁷ http://www.audit.wales/cy/system/files/publications/Early_Departures_Welsh_2015.pdf

ariannol megis lleihau cymhlethdod partneriaethau, ail-ganolbwyntio amser arweinyddiaeth ar reoli gwasanaethau integredig yn hytrach na reoli rhyngwynebau sefydliadol a chyfleuon i ehangu arfer da a gollir drwy wneud dim.

COSTAU

Costau i Lywodraeth Cymru

Byddai'r 22 o Awdurdodau Lleol yn parhau ar eu ffurf bresennol. Nid eid i'r afael â'r materion a ganfyddwyd gan y Comisiwn Williams yn ymwneud â pherfformiad a sicrhau bod digon o gydnerthedd, gallu a chapasiti i oresgyn heriau yn y dyfodol yn llwyddiannus. Mae canfyddiadau'r Comisiwn yn awgrymu y byddai hyn yn fwyfwy anodd i Awdurdodau Lleol unigol eu rheoli, gyda'r canlyniad fod gwasanaethau yn crebachu ac yn y diwedd, gwasanaethau yn methu.

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae sawl achos lle roedd angen cymorth ychwanegol ar Awdurdodau Lleol oherwydd amrywiaeth o fethiannau mewn gwasanaethau a methiannau llywodraethu. Os dewisir yr opsiwn "gwneud dim" yna gellid tybio y byddai'r patrwm hwn yn parhau ac mae'n debygol y byddai cynnydd yn nifer yr ymyriadau sydd eu hangen. Dim ond pan fetho popeth arall y ceir y math hwn o ymyriad ac, yn ogystal â'r buddsoddiad ariannol sydd ei angen i'w weithredu, mae hefyd yn niweidio enw da Awdurdodau Lleol a gallai arwain at golli rheolaeth ddemocrataidd leol am gyfnod o amser. Golyga fod gwasanaethau wedi dirywio i'r fath raddau bod angen cymryd camau adfer er mwyn atal dirywiad difrifol pellach. Nid yw hyn yn sefyllfa foddhaol o unrhyw safbwynt, y rhai sy'n dibynnu ar wasanaethau, Awdurdodau Lleol na Llywodraeth Cymru.

Costau i Lywodraeth Leol

Byddai gwneud dim yn golygu colli cyfle pwysig. Byddai peidio dewis yr opsiwn a ffeirir a gwneud dim yn colli'r cyfle i Awdurdodau Lleol sicrhau rhwng £548 a £669 miliwn o leiaf o arbedion net dros y deng mlynedd nesaf.

Mae consensws eang nad yw gwneud dim yn opsiwn hyfyw. Mae'r holl dystiolaeth yn awgrymu bod mwy o doriadau i ddod ar ben y toriadau cyni a wnaed yn barod gan Lywodraeth y DU. Ni fydd torri cyllidebau sylfaenol, toriadau tameidiog ac arbedion effeithlonrwydd cynyddrannol ar ben y rhai a wnaed yn barod yn ddigon i gyrraedd y raddfa o arbedion ariannol sydd eu hangen na ateb gofynion a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd. Mae gwneud dim yn golygu y bydd gwasanaethau yn debygol o fethu ac y bydd pobl yn dioddef,

Mae adroddiad a gyhoddwyd gan CCLIC ym mis Mehefin 2014, *Financial Prospects for Welsh Local Government*, yn nodi'r pwysau ariannol sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn disgrifio senario ariannol yn y dyfodol ble mae Awdurdod Lleol Cymreig nodweddiadol yn methu'n hanfodol i newid y dull y mae'n cyflawni gwasanaethau dros y byrdymor i'r hir dymor. Eir ymlaen yn yr adroddiad i allosod y sefyllfa ar gyfer pob Awdurdod Lleol yng Nghymru a dod i'r

casgliad y gallai Llywodraeth Leol wynebu diffyg ariannol cronol amcangyfrifedig rhwng £500m a £900m o fewn y 3 blynedd nesa.

Ni fydd gwneud dim yn atal y senario hon, neu senario ddifrifol debyg, rhag ddigwydd gan nad yw'n darparu platfform ar gyfer y newid radical trawsnewidiol sydd ei angen er mwyn creu Awdurdodau Lleol cynaliadwy a chydnerthol yng nghalon eu cymunedau, tra'n chwarae rhan gref yn llywodraethu Cymru o fewn setliad datganoli newydd.

Mae'r dystiolaeth a roddir yn y cefndir i'r AER drafft hwn yn awgrymu bod angen newid trawsnewidiol ar Awdurdodau Lleol i oroesi'r pwysau ariannol hir dymor a'r gofynion demograffig a ragwelir, drwy wneud mwy na sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd o fewn y system gyfredol.

Er enghraifft, cydnabu adroddiad diweddar KPMG, *Administrative Cost Review*, £151 miliwn o arbedion gweinyddol drwy greu dull safonol a mwy effeithlon o gyflawni swyddogaethau gweinyddol o fewn y 22 Awdurdod Lleol presennol. Dyma arbedion y gellir eu sicrhau yn y dyfodol agos ond ni fyddent ychwaith yn ddigonol i gwrdd â'r her ariannol, ynghyd â gofynion a disgwyliadau cynyddol y cyhoedd.

Bydd sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd hyn yn bwysig yn y tymor byr i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn cael y gwerth gorau am arian cyhoeddus, lleihau gorbenion, a gwario'r mwyaf posib ar wasanaethau rheng flaen, Maent hefyd yn bwysig fel platfform da i sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd ar ôl uno. Fodd bynnag, ar eu pen eu hyn a heb weithredu pellach, ni fyddant yn ddigon i gwrdd â maint yr her sy'n wynebu Awdurdodau Lleol.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y risg o bwysau cynyddol o ganlyniad i gyni ariannol, ynghyd â'r risg o newid demograffig, yn debygol o arwain at sefyllfa lle na fydd digon o adnoddau ar gael i ateb y galw cynyddol am wasanaethau yn y dyfodol agos. Os bydd y 22 Awdurdod yn parhau ac yn parhau i reoli eu hunain yn yr un ffordd, mae'n debygol y bydd problemau systemig yn gwaethgu ac y bydd yn anos mynd i'r afael â heriau. Ni fyddai'r opsiwn hwn, pe bai'n cael ei ddewis, yn mynd i'r afael â'r materion hyn, gan adael i bob Awdurdod Lleol ddod o hyd i'w dull o weithredu ei hun heb unrhyw gyfeiriad strategol troswaol na chefnogaeth.

Fel y nodir yn y cefndir ni ddaw cyni ariannol i ben yn y byrdymor i'r tymor canolig. Mae adroddiad diweddar gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (SAG) *The impact of funding reductions on local authorities* yn amcangyfrif bod yr arian y mae Awdurdodau Lleol yn Lloegr yn ei dderbyn gan Lywodraeth y DU wedi gostwng 37 y cant mewn termau real rhwng 2010-11 a 2015-16.

Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi bod sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn parhau i fod yn ariannol gynaliadwy, i'r graddau eu bod yn darparu eu gwasanaethau statudol i safon ddigonol, wedi dod yn anos. Mae'r model rhagolygon ariannu ar gyfer Lloegr

yn rhagweld y bydd yr arian sydd ar gael i ddarparu rhai gwasanaethau lleol yn lleihau 66 y cant erbyn diwedd y degawd. Os felly, mae'n debygol y bydd llai o arian i'w wario ar wasanaethau megis cynnal a chadw ffyrdd, llyfrgelloedd, cefnogi busnesau lleol, darparu gwasanaethau ieuenctid ac ariannu cyfleusterau hamdden.

Nododd adroddiad diweddar gan Gymdeithas Llywodraeth Leol (CLIL) fod 60 y cant o Awdurdodau yn Lloegr yn honni, o dan yr amgylchiadau presennol, na fyddant yn gallu llenwi'r bwlch yn eu cyllideb drwy wneud arbedion effeithlonrwydd yn unig yn 2015-16.⁸ Nododd bron un o bob tri Chyngor yn Lloegr nad oes ganddynt fawr ddim lle, os o gwbl, i ad-drefnu gwasanaethau ymhellach a'i bod yn anochel y caiff rhai gwasanaethau eu torri. Mae traean arall yn credu, er bod cyfle i wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd o hyd, nad yw'n ddigon i osgoi'r angen i ystyried lleihau'r gwasanaethau a gynigir i drigolion lleol.

Mae adroddiad CLIL, *Future funding outlook for councils from 2010-11 to 2019-20*⁹ yn ailbwysleisio'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yn Lloegr, gan nodi y byddai "bwlch ariannu" (sef gwariant net o'i gymharu â chyfanswm yr arian) o hyd at £14.4 biliwn erbyn 2020 oherwydd cyfuniad o doriadau ariannol a phwysau gwario. Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi, rhwng 2010-11 a 2019-20, y disgwylir i incwm leihau 15 y cant yn nhermau arian parod, neu fwy na 27 y cant mewn termau real. Nid yw hyn yn cyfrif am gyflwyno arian iechyd cyhoeddus sydd, o'i ychwanegu, yn arwain at ragolwg mwy heriol fyth. Mae adroddiad CLIL hefyd yn nodi'r heriau sy'n gysylltiedig â chynyddu'r arian ar gyfer gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff, sy'n cyd-fynd â'r heriau a wynebir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru.

O ran Awdurdodau Cymreig, nododd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), *Rheoli ymadawiadau cynnar yng ngwahanol gyrff cyhoeddus Cymru*, fod arbedion staff yn ffordd anochel o leihau costau er mwyn cyflawni targedau ehangach Awdurdodau Lleol ar gyfer arbedion ariannol. Nid yw hyn yn sefyllfa gynaliadwy gan ei bod yn arwain at golli gwybodaeth ac arbenigedd, ysbryd isel a lefelau uwch o absenoldeb salwch o ganlyniad i straen ychwanegol ar y staff sy'n aros.

Mae sawl Awdurdod wedi mynd i'r afael â'r heriau ariannol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf drwy dorri eu gwasanaethau presennol yn raddol a chyflawni arbedion effeithlonrwydd yn fewnol; fel y nodwyd uchod, er y gallai'r dull hwn o weithredu fod yn ddichonadwy yn y byrdymor, nid yw'n ateb cynaliadwy i'r heriau cyllidebol yn y dyfodol.

Problem arall yw bod gan Awdurdodau Lleol â sylfeini treth cymharol lai lai o gapasiti i gynhyrchu incwm drwy'r Dreth Gyngor, sy'n golygu eu bod yn dibynnu'n fwy ar ffyrdiau ariannu eraill, gan gynnwys grantiau'r Llywodraeth. Fel arfer, mae eu costau gweinyddu fel cyfran o'i wariant yn uwch ac mae costau uwch reolwyr yn

⁸ <http://www.local.gov.uk/documents/10180/5854661/Under+pressure.pdf/0c864f60-8e34-442a-8ed7-9037b9c59b46>

⁹ http://www.local.gov.uk/c/document_library/get_file?uuid=b9880109-a1bc-4c9b-84d4-0ec5426ccd26&groupId=10180

uwch o'u cymharu â maint eu poblogaeth. Mae'r rhain yn nodweddion cynhenid o faint presennol rhai o'r Awdurdodau ac, felly, nid eid i'r afael â hwy o dan y senario "Gwneud Dim"

Mae rhagor o newidiadau sylfaenol a hirdymor yn y galw am wasanaethau oherwydd cyfraddau geni cynyddol a'r ffaith bod pobl yn byw'n hirach a grwpiau teuluol gwasgaredig, yn ogystal â disgwyliadau cynyddol gan y cyhoedd o ran ansawdd gwasanaethau na fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â hwy. Hefyd, drwy wneud dim, ni fyddai Awdurdodau Lleol yn gallu darparu'r gwasanaethau cymunedol a werthfawrogi gan y cyhoedd. Mae hyn yn cael ei amlygu gan nifer fawr o benderfyniadau a wnaed gan Awdurdodau yn ystod y blynyddoedd diwethaf i gau llyfrgelloedd cyhoeddus, theatrau, canolfannau hamdden a thoiledau cyhoeddus.

MANTEISION

Manteision i Lywodraeth Cymru

Dwedodd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ei fod yn ddewis rhwng naill ai toriadau estynedig ac, yn y pen draw, anghynaliadwy i swyddi rheng flaen a gwasanaethau, neu fuddsoddi mewn strwythur diwygiedig fydd yn cynhyrchu arbedion tymor hir sylweddol ac felly lleddfu'r angen am doriadau i wasanaethau. Byddai gwneud dim yn gyfystyr â dewis y cyntaf o'r opsiynau hyn. Mae hyn yn arwain at doriadau ariannol a thoriadau i wasanaethau sy'n anghynaliadwy, gyda chymunedau a thrigolion yn colli gwasanaethau cyhoeddus lleol, cynrychiolaeth leol a democratiaeth leol.

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn dod ag unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai'n gwneud unrhyw beth i fynd i'r afael â'r heriau perfformiadol, heriau strwythurol a'r heriau o ran adnoddau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol yn y byrdymor i'r tymor canolig. Ni chât'r argymhellion a awgrymwyd gan y Comisiwn er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a nodwyd eu gweithredu ac, felly, ni sicrhed y manteision posibl. Yn ôl pob tebyg, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddargyfeirio arian o rywle arall i dalu cost rhagor o ymyriadau uniongyrchol wrth i Awdurdodau Lleol wynebu methiannau corfforaethol a methiannau mewn gwasanaethau a cholli gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Collir y cyfle i weithio gydag Awdurdodau Lleol cadarn sydd mewn cysylltiad â'u cymunedau i wella gwasanaethau cyhoeddus yng nghyd-destun setliad datganoli diwygiedig i Gymru.

Manteision i Lywodraeth Leol

Does dim manteision i Awdurdodau Lleol o ddewis yr opsiwn 'Gwneud Dim'. Ni fyddent yn wynebu'r heriau sy'n gysylltiedig â phrosesau uno strwythurol ond byddai'r heriau o reoli gofynion a disgwyliadau uwch y cyhoedd yng nghyd-destun cyni ariannol parhaus yn debyg o arwain at ailstrwythuro sylweddol o fewn Awdurdodau Lleol, hyd nes bod gwasanaethau ac arweinyddiaeth cymunedol yn

gostwng yn ddirfawr neu hyd yn oed fethu. Byddai Awdurdodau Lleol yn wynebu'r heriau sylweddol hyn , ar eu ffurf bresennol heb gyfle i drawsnewid yn strategol a heb fframwaith hyfyw ar gyfer Llywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd ar draws Cymru.

Byddai gwneud dim felly yn gyfle sylweddol a gollwyd. Byddai peidio a dewis yr opsiwn a ffefrir yn golygu na fyddai Awdurdodau Lleol yn medru sicrhau rhwng £548 â £669 miliwn o arbedion net dros y deng mlynedd nesa. Credir bod yr arbedion hyn yn hanfodol er mwyn diogelu a gwella gwasanaethau lleol gwerthfawr, ac yn ogystal i sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn gallu digoni'r alw cynyddol am wasanaethau mewn byd o gyllidebau sy'n gostwng. Byddai gwneud dim yn methu gwireddu argymhellion y Comisiwn i leihau cymhlethdod mewn Llywodraeth Leol, cynyddu capasiti arweinyddiaeth strategol Awdurdodau Lleol na gwella llywodraethu.

Fel a nodwyd yn y cefndir, os yw mesurau cyni Llywodraeth y DU yn parhau, sy'n ymddangos yn debygol, mae'n bosibl y bydd Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn wynebu toriadau mwy estynedig dros y 5 mlynedd nesa, fel a brofwyd gan eu Hawdurdodau cyfatebol yn Lloegr. Yn dilyn Datganiad Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ar 25 Tachwedd, bydd yr heriau ariannol i ddod yn fwy eglur a diweddarir yr AER terfynol i adlewyrchu cynlluniau gwariant mwyaf diweddar Llywodraeth y DU.

Opsiwn 2 - Cydwasanaeth Gweinyddol

Mae'r Opsiwn hwn yn cynnwys swyddogaethau gweinyddol dethol a gyflawnir ar wahân gan bob Awdurdod Lleol ar hyn o bryd i'w cyfuno a'u rhannu ar lefel Cymru gyfan. Ni fyddai'r dull hwn o weithredu yn ei gwneud yn ofynnol i uno Awdurdodau Lleol yn llwyr drwy broses ddemocrataidd, byddai'r 22 o Awdurdodau Lleol presennol yn parhau ar eu ffurf bresennol, er y byddai angen cyd-systemau newydd i oruchwyllo a darparu cydwasanaethau.

Mae sawl opsiwn posibl ar gyfer sefydlu Cydwasanaeth Gweinyddol yng Nghymru. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn ystyriwyd dull gweithredu a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliad newydd gael ei greu i oruchwyllo swyddogaethau gweinyddol dethol. Byddai'r dull hwn sy'n seiliedig ar ganolfan Cydwasanaeth Gweinyddol yn goruchwyllo ac yn gweithredu cydwasanaeth gweinyddol ar gyfer y 22 o Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Byddai'r corff newydd yn rheoli'r dechnoleg gwybodaeth ac yn darparu un pwynt arbenigedd, gan oruchwyllo gweithrediadau swyddogaethau gweinyddu dethol mewn Awdurdodau Lleol.

Nod cydwasanaeth gweinyddu fyddai sicrhau dull gweithredu cyffredin, a fyddai'n arwain at arbedion maint ac arbedion effeithlonrwydd drwy reoli cydwasanaethau gweinyddol ar lefel Cymru gyfan. Er mwyn gwneud hyn yn wirfoddol heb wneud newidiadau deddfwriaethol byddai angen arweiniad, cytundeb ac ymrwymiad pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol. Gwneid hyn heb y newid strwythurol a democrataidd sy'n gysylltiedig ag uno Awdurdodau Lleol yn ffurfiol ond byddai angen rhoi trefniadau llywodraethu addas ar waith er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd. Fel arall, ac os na fydd yr Awdurdodau yn gallu dod i gytundeb, gellid defnyddio deddfwriaeth i wneud y dull hwn o weithredu yn orfodol. Fodd bynnag, nid ystyriwyd costau'r opsiwn hwn ymhellach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn.

Nododd adroddiad diweddar gan KPMG, sef *Welsh Local Authorities, Administrative Cost Review*¹⁰, fod Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn gwario bron £500m y flwyddyn ar weithgareddau gweinyddol. Mae hyn yn cyfrif am bron 6 y cant o gyfanswm gwariant referniw gros blyneddol Awdurdodau Lleol.

Nododd yr adroddiad fod gwariant a gweithgarwch gweinyddol yn amrywio'n fawr rhwng Awdurdodau Lleol, ar sail absoliwt a chymharol.

Byddai Cydwasanaeth Gweinyddol yn ceisio gwneud arbedion effeithlonrwydd a lleihau gwariant ar y gwasanaethau hyn. Mae'r ystod o arbedion, neu arbedion posibl, yr honnir bod cyflawni gweithrediadau cydwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn eu sicrhau, yn amrywio o 20 y cant (Swyddfa'r Cabinet) i enghreifftiau yn y sector

¹⁰ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/150612-welsh-la-admin-cost-review.pdf>

preifat sy'n honni y gellir arbed rhwng 25 a 40 y cant o gostau rhedeg swyddogaethau cefn swyddfa.

Awgrymodd y Comisiwn nad oes unrhyw nodweddion unigryw lleol yn perthyn i wasanaethau gweinyddol ac, felly, nad oes unrhyw reswm pam mae angen iddynt gael eu cyflawni gan sefydliadau sy'n gweithredu ar wahân.

Bu'r defnydd o weithrediadau cydwasanaeth yn nodwedd ar gwmnïau mawr yn y sector preifat ers peth amser a bu'n datblygu o fewn Llywodraeth Ganolog a'r sector cyhoeddus ers dechrau'r 2000au. Yn Lloegr, mae CLIL yn amcangyfrif bod 95 y cant o Gynghorau yn rhannu o leiaf rai gwasanaethau, gyda bron 400 o enghreifftiau o weithrediadau cydwasanaeth. Mae'r niferoedd hyn wedi cynyddu'r sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Er hynny, mae sawl enghraifft o fentrau lleol bach a roddwyd ar waith er mwyn rheoli gwasanaethau dethol rhwng rhai Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae a wnelo un enghraifft â gwasanaethau cyfreithiol lle mae chwe Awdurdod Lleol yn ne-orllewin Cymru wedi rhannu gwasanaethau ers 2006. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gydwasanaethau amlwasanaeth a arweinir gan Awdurdodau Lleol sy'n cwmpasu Cymru gyfan.

Nododd y Comisiwn fod cyflawniadau Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Gymru yn enghraifft dda o gydwasanaeth ac argymhellodd y dylid datblygu a sefydlu un gweithrediad cydwasanaeth ar gyfer swyddogaethau cefn swyddfa a gwasanaethau cyffredin ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus.

Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl ymestyn Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gynnwys gwasanaethau iechyd a gwasanaethau Llywodraeth Leol. Er mwyn gwneud hynny byddai angen newid y fframwaith deddfwriaethol. O dan y ddeddfwriaeth bresennol ni fyddai swyddogaethau un o ymddiriedolaethau'r GIG (cynhelir Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar hyn o bryd) yn ymestyn i gynnwys darparu cydwasanaethau y tu allan i'r gwasanaeth iechyd.

Byddai Opsiwn 2 yn creu Cydwasanaeth Gweinyddol ar gyfer y 22 o Awdurdodau Lleol a fyddai'n anelu at sicrhau arbedion y tu hwnt i'r rhai a nodwyd yn adroddiad KPMG drwy uno gwasanaethau gweinyddol. Prif nodau cydwasanaeth gweinyddol fyddai sicrhau dull gweithredu cyffredin ledled Cymru, gan gynyddu cydnerthedd ac arbed costau drwy gyflawni arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint. Byddai un corff hyd braich a arweinir gan Awdurdodau Lleol yn goruchwyllo dull gweinyddu cyffredin, gan leihau dyblygu ymdrech sy'n digwydd ar hyn o bryd yn sylweddol. Byddai dull gweithredu cyffredin i Gymru gyfan yn fodd i grynhoi sgiliau arbenigol a meithrin gallu.

Dylid nodi bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn amcangyfrif y costau a'r manteision a allai fod yn gysylltiedig â sefydlu dull Cydwasanaeth Gweinyddol. Nid yw'n rhoi achos busnes llawn dros Gydwasanaeth Gweinyddol nac ychwaith yn

ceisio rhoi manylion llawn am sut y byddai'r dull cydwasanaeth hwn yn gweithredu yn ymarferol.

COSTAU

Costau i Lywodraeth Cymru

Mae'r costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn wedi'u hystyried isod. Byddai lefel y costau yn amrywio gan ddibynnu ar benderfyniadau yn y dyfodol ynghylch yr ystod o swyddogaethau sy'n cael eu canoli mewn model cydwasanaeth.

Disgwylir i Lywodraeth Cymru fynd i gostau drwy ddarparu tîm o swyddogion er mwyn helpu i roi cydwasanaeth gweinyddol ar waith. Disgwylir y byddai hyn yn rhoi rhywfaint o fewnbwn strategol ar gyfer y dull hwn o weithredu, er mwyn helpu corff y Cydwasanaeth Gweinyddol newydd i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd. Pe bai'r dull gweithredu a ystyrir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, sef cyflwyno cydwasanaeth gweinyddol drwy gorff ar wahân, yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus, disgwylir y byddai angen i Lywodraeth Cymru ddarparu canllawiau a chydgyssylltu'r Cytundebau Lefel Gwasanaeth cychwynnol sydd eu hangen rhwng y 22 o Awdurdodau Lleol presennol a chorff y cydwasanaeth newydd.

Tîm Cymorth

Nod tîm cymorth cydwasanaeth Llywodraeth Cymru fyddai helpu i roi unrhyw Gydwasanaeth Gweinyddol newydd ar waith ledled Cymru. Byddai'r tîm hwn hefyd yn darparu deunydd cyfarwyddyd a gwybodaeth ategol. Ystyrir bod y costau yn gostau cyfleoedd oherwydd byddai'r gwaith a wneid yn disodli gwaith sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn hytrach na gofyn am adnoddau ychwanegol.

Disgwylir y byddai angen parhaus am dîm cymorth pe câi Cydwasanaeth Gweinyddol ei weithredu'n llawn. Fodd bynnag, tybiwyd y byddai maint y tîm hwn yn lleihau ar ôl tair blynedd, ar ôl i'r ffordd newydd o weithio gael ei sefydlu. Amcangyfrifir y bydd tîm cydwasanaeth o dan nawdd Llywodraeth Cymru yn costio tua **£500,000** y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd gyntaf, gyda'r gost yn gostwng i **£220,000** y flwyddyn ar gyfer y blynnyddoedd dilynol. Ceir rhagor o fanylion am yr amcangyfrifon hyn Atodiad A.

Costau i Lywodraeth Leol

Byddai amrywiaeth o gostau i Lywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddent yn cynnwys costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â sefydlu canolfan cydwasanaeth gweinyddol, datblygu systemau TGCh cyffredin a hyfforddi swyddogion. Câi'r costau untro cychwynnol eu dilyn gan gostau blynyddol ychwanegol sy'n ofynnol i redeg cydwasanaeth gweinyddol.

Byddai unrhyw fuddsoddiad yn dibynnu ar ba swyddogaethau y byddai'n ofynnol i'r ganolfan eu cyflawni. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn tybir y byddai'r Cydwasanaeth Gweinyddol yn cyflawni'r swyddogaethau isod, y nodwyd eu bod yn swyddogaethau gweinyddol yn adolygiad KPMG o gostau gweinyddol.

- Rheoli Eiddo
- TGCh
- Cyllid
- Refeniw a Buddion
- Adnoddau Dynol
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Canolfan Gyswllt
- Caffael

Mae meysydd posibl eraill yn cynnwys archwilio a sicrwydd, gwrth-dwyll, trafnidiaeth a gwasanaethau cludiant, cofrestrau a rheoli cofnodion a hyfforddiant a datblygu. Byddai amrywiaeth o gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r gwaith o ddatblygu cydwasanaeth gweinyddol newydd. Cyflwynwyd ac amcangyfrifwyd y costau hyn o dan y penawdau canlynol:

- Costau Systemau TGCh
- Costau Terfynu Contractau
- Costau Datblygu TGCh
- Costau Cymorth Ymgynghorwyr
- Costau Hyfforddiant
- Costau Teithio Ychwanegol
- Costau Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar Staff
- Trefniadau Llywodraethu

Costau Systemau TGCh

Ar hyn o bryd mae pob un o'r 22 o Awdurdodau yn penderfynu ar ei drefniadau gweinyddol ei hun. Er mwyn gwneud hyn mae angen i Awdurdodau Lleol nodi'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt a dod o hyd i ateb i gyflawni'r swyddogaethau hynny ar wahân. Mae'r dull gweithredu presennol yn golygu dyblygu ymdrech i gaffael, rheoli a gwerthuso'r swyddogaethau hyn. Byddai Opsiwn 2 yn lleihau dyblygu ymdrech yn sylweddol a châi un dull gweithredu ei sefydlu i Gymru gyfan. Byddai hyn yn golygu bod angen llai o adnoddau i osod contractau ar dendr a'u rheoli, gan sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint lle y bo'n bosibl.

Nododd adroddiad KPMG, sef *Administrative Cost Review*, fod Awdurdodau Lleol wedi gwario bron £85m ar TGCh yn 2013-14. Aiff yr adroddiad ymlaen i nodi:

‘A pan-Wales ICT strategy has the potential to drive a number of significant benefits through standardisation, mutual investment and encouraging innovation. Lack of collaboration between Authorities will currently drive a level of duplication, especially around hardware utilisation and software development.’

Byddai Opsiwn 2 yn ffurfio corff cydwasanaeth gweinyddol ac un o nodau'r Cydwasanaeth Gweinyddol fyddai sefydlu llwyfan TGCh a rennir ar gyfer pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol. Byddai angen i unrhyw system gyffredin fod yn ddigon hyblyg i ddiwallu anghenion penodol pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol tra'n cynnwys rhai nodweddion cyffredin. Fodd bynnag, mae llawer o'r ffactorau sy'n ysgogi buddsoddi mewn TGCh ar hyn o bryd yn ymwneud â'r gwasanaethau gweinyddol a gâi eu rheoli gan gydwasanaeth gweinyddol (cyllid, cyswllt â chwsmeriaid, adnoddau dynol ac ati) ac, felly, byddai'n hanfodol safoni'r gwasanaethau hyn.

Costau Terfynu Contractau

Pe penderfynid dewis opsiwn y Cydwasanaeth Gweinyddol, byddai gan Awdurdodau Lleol gyfnod cynllunio sylweddol. Felly, ni ddisgwylir y byddai unrhyw gostau sylweddol yn gysylltiedig â therfynu contractau TGCh presennol.

Byddai pob Awdurdod yn cael cyfle i asesu ei gontractau presennol yn ystod y cyfnod cyn i unrhyw Gydwasanaeth Gweinyddol newydd gae ei roi ar waith. Fel gydag unrhyw system TGCh newydd byddai angen gweithredu'r llwyfannau presennol a newydd ochr yn ochr â'i gilydd i ryw raddau. Disgwylir y byddai Awdurdodau Lleol yn ystyried hyn wrth gynllunio eu gofynion o ran TGCh yn y dyfodol.

Felly, tybir y byddai'r angen i derfynu contractau yn cael ei osgoi yn gyfan gwbl drwy waith cynllunio rhesymol. Felly, ni nodwyd unrhyw gostau o dan yr adran hon.

Costau Datblygu TGCh

Byddai angen gwneud rhagor o waith cwrpasu er mwyn nodi faint yn union y byddai angen ei fuddsoddi mewn TGCh er mwyn rhoi Cydwasanaeth Gweinyddol i Gymru gyfan ar waith. Byddai'r gost hon yn dibynnu ar y swyddogaethau y byddai'n ofynnol i'r system eu cyflawni.

Mae'n debygol y bydd angen buddsoddiad ychwanegol cychwynnol, ar ben y £85 miliwn y mae Awdurdodau Lleol yn ei wario bob blwyddyn, er mwyn rhoi llwyfan TGCh newydd “i Gymru gyfan” ar waith. Amcangyfrifwyd y gallai fod angen buddsoddiad ychwanegol o tua **£50 miliwn a £150 miliwn** dros bum mlynedd er mwyn rhoi system TGCh o'r maint hwn ar waith, gan ddibynnu ar ba mor gyflym y caiff ei rhoi ar waith a chymhlethdod y swyddogaethau a ymgorfforir yn y cydwasanaeth gweinyddol. Mae'r ystod amcangyfrifedig hon yn seiliedig ar ystyried enghreifftiau o gydwasanaethau sy'n bodoli eisoes yn y DU (LGSS (menter

cydwasanaethau ym mherchenogaeth lwyr Cynghorau Sir Swydd Gaergrawnt a Swydd Northampton) ac UK SBS) ar raddfa fwy.

Nid oedd yr un o'r enghreifftiau hyn yn cynnwys y gofyniad penodol i 22 o randdeiliaid gydweithredu a chytuno ar ddull gweithredu cyson. Ac nid ydynt yn ymdrin â chymhlethdod y broses o uno amrywiaeth eang o systemau fesul Awdurdod Lleol, y gall pob un ohonynt fod yn wahanol iawn, er mwyn sefydlu un dull gweithredu cyffredin. Mewn rhai achosion, byddai'n gwneud synnwyr i roi systemau newydd yn lle'r rhai presennol yn hytrach na'u huno, wrth gwrs. Mae risg sylweddol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn a allai olygu bod angen buddsoddi mwy mewn TGCh er mwyn cyflawni'r nod o sefydlu un llwyfan gweinyddol. Mae nifer o'r astudiaethau achos hyn wedi nodi bod y costau hyn yn risgiau mawr, yn enwedig pan nad yw cydweithredu yn orfodol nac yn cael ei ategu gan newid strwythurol. Ar ôl i'r llwyfan TGCh newydd gael ei roi ar waith disgwylir y byddai gwariant yr 22 o Awdurdodau Lleol ar TGCh yn lleihau drwy arbedion maint, mwy o bŵer bargeinio ac arbedion effeithlonrwydd. Ystyriwyd unrhyw arbedion cost posibl o dan yr adran sy'n ymdrin â manteision.

Costau Cymorth Ymgynghori

Disgwylir y byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am rywfaint o gymorth gan ymgynghorwyr allanol. Byddai angen mewnbwn gan arbenigwyr o'r diwydiant a fyddai'n gallu helpu i ddatblygu'r strwythurau a'r systemau sydd eu hangen. Byddai hyn yn cynnwys datblygu manyleb y systemau TGCh newydd, rheoli'r broses newid a datblygu strwythur llywodraethu a rheoli ar gyfer swyddogaeth y cydwasanaeth.

Byddai angen cryn dipyn o newid sefydliadol er mwyn i gydwasanaeth gweinyddol lwyddo. Byddai angen rheoli'r newid hwn yn ofalus ac ymgorffori diwylliant a dull gweithredu newydd a chyson yn y 22 o Awdurdodau Lleol. Tybiwyd y byddai angen ymgynghorwyr i helpu gyda'r broses newid.

Amcangyfrifir y byddai angen ymgynghorwyr am rhwng **200 a 150 diwrnod** o amser ymgynghori (fesul Awdurdod Lleol) yn ystod y flwyddyn cyn lansio unrhyw gydwasanaeth gweinyddol newydd, rhwng **150 a 100 diwrnod** (fesul Awdurdod Lleol) yn ystod y flwyddyn ar ôl iddo gael ei roi ar waith a rhwng **100 a 50 diwrnod** (fesul Awdurdod Lleol) yn yr ail flwyddyn. Amcangyfrifir y byddai angen talu costau ymgynghori ychwanegol o rhwng **£150,000 a £225,000** fesul Awdurdod Lleol dros dair blynedd.

Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau ymgynghori y byddai angen eu talu er mwyn cefnogi'r opsiwn hwn rhwng **£3.3 miliwn a £5.0 miliwn**.

Costau Hyfforddiant

Er mwyn helpu staff gyda'r newidiadau hyn byddai angen darparu amrywiaeth o raglenni hyfforddiant. Byddai angen addasu'r hyfforddiant hwn er mwyn bodloni gofynion gwahanol y staff gweinyddol sy'n gweithio mewn Llywodraeth Leol. Er

enghraifft, byddai angen llawer mwy o hyfforddiant ar swyddogion sy'n treulio cryn dipyn o'u hamser yn gweithio ar y system TGCh o gymharu â swyddog sy'n defnyddio adroddiadau cryno bob mis neu bob blwyddyn. Tybiwyd y byddai angen rhywfaint o hyfforddiant ar bob swyddog sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol yn y 22 o Awdurdodau Lleol.

Byddai lefel yr hyfforddiant sydd ei angen ar unigolion yn dibynnu ar eu rôl yn yr Awdurdod Lleol a'r rhyngweithio rhyngddynt hwy a'r Cydwasanaeth Gweinyddol.

Tybiwyd y byddai angen **10 awr** o hyfforddiant penodol ar bob aelod o staff sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol, ar gyfartaledd. Amcangyfrifir bod cyfanswm y costau hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag Opsiwn 2 rhwng **£4.2 miliwn a £4.4 miliwn** dros dair blynedd. Mae hyn yn amrywio gan ddibynnu ar nifer y staff sy'n gweithio mewn swyddi gweinyddol yn y dyfodol.

Costau Teithio Ychwanegol

Drwy greu Cydwasanaeth Gweinyddol, disgwylir y byddai nifer y swyddi gweinyddol sydd eu hangen ar gyfer pob Awdurdod Lleol yn lleihau ond disgwylir y byddai'r galw am swyddi o'r fath ar gyfer y canolfan gydwasanaeth/canolfannau cydwasanaeth y cytunwyd arni/arnynt yn cynyddu.

Mae costau posibl yn gysylltiedig ag unrhyw ofyniad i staff deithio ymhellach. Fodd bynnag, dylid ystyried y costau hyn mewn amgylchedd lle mae Awdurdodau Lleol wedi ystyried eu hopsiynau ar gyfer caniatáu gweithio o bell yn llawn. Mae nifer o opsiynau ar gyfer gweithio o bell ar gael a dylai'r rhain leihau'r rhan fwyaf o gostau teithio ychwanegol posibl yn sylweddol neu eu hosgoi. Byddai Awdurdodau Lleol yn parhau i gyflawni cyfran fawr o'u tasgau gweinyddol yn lleol, ond oherwydd arbedion effeithlonrwydd dylai cyfanswm y swyddi sydd eu hangen ym mhob Awdurdod Lleol leihau.

At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn tybiwyd, drwy arbedion effeithlonrwydd a llai o ddyblygu ymdrech a gyflawnir drwy'r Cydwasanaeth Gweinyddol, y byddai'n realistig lleihau cyfanswm y swyddi gweinyddol mewn Awdurdodau Lleol rhwng 5 y cant a 10 y cant. Byddai hyn yn golygu gostyngiad cyffredinol o rhwng 500 a 1,000 yn nifer y swyddi gweinyddol sydd eu hangen mewn Awdurdodau Lleol.

Byddai'r rhan fwyaf o'r swyddi gweinyddol yn parhau i fod wedi'u lleoli yn eu safle presennol neu byddent yn cael budd o drefniadau gweithio hyblyg. Disgwylir y gallai fod angen i nifer fach o staff wneud teithiau ychwanegol. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn ystyriwyd bod **150 a 250** o'r swyddi gweinyddol sy'n weddill yn gymwys i gael lwfans teithio ychwanegol. Byddai angen gwneud rhagor o waith dadansoddi er mwyn amcangyfrif y gofynion o ran teithiau ychwanegol.

Yn seiliedig ar y tybiaethau uchod, amcangyfrifir bod disgwyl i gostau teithio ychwanegol fod rhwng **£600,000 a £1 miliwn** y flwyddyn ar gyfer y tair blynedd gyntaf. Ceir rhagor o fanylion am yr ystod amcangyfrifedig hon yn Atodiad A.

Costau Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar Staff

Byddai costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar staff yn dibynnu ar gynlluniau'r Awdurdodau Lleol unigol, oedran pob unigolyn a nifer y blynyddoedd o wasanaeth. Dylai Awdurdodau Lleol geisio lleihau'r costau hyn drwy waith cynllunio synhwyrol.

Mater i bob Awdurdod Lleol fyddai penderfynu sut i weithredu ei gynllun dileu swyddi er mwyn lleihau costau lle bynnag y bo'n bosibl ac osgoi diswyddo staff yn orfodol. Fodd bynnag, amcangyfrifwyd y byddai creu Cydwasanaeth Gweinyddol yn lleihau cyfanswm y swyddi gweinyddol sydd eu hangen mewn Awdurdodau Lleol. Tybiwyd y byddai rhai aelodau o staff yn trosglwyddo i weithio i'r sefydliad newydd, tra bydd eraill yn parhau yn eu Hawdurdodau Lleol presennol. Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifwyd y gallai Opsiwn 2 arwain at ostyngiad cyffredinol o rhwng **500 a 1,000** o swyddi.

Amcangyfrifwyd y gallai cyfanswm cost taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar yn sgil creu cydwasanaeth gweinyddol fod rhwng **£8.1m a £20.0m**, gan ddibynnu ar nifer y swyddi a ddileir, proffil oedran y staff a'r cynllun diswyddo a roddir ar waith gan bob Awdurdod Lleol. Cost untro yr eid iddi yn y flwyddyn gyntaf fyddai hon. Ceir rhagor o wybodaeth am yr amcangyfrif hwn yn Atodiad A.

Trefniadau Llywodraethu

Fel rhan o'r broses o sefydlu'r Cydwasanaeth Gweinyddol, byddai angen i Awdurdodau Lleol ystyried y trefniadau llywodraethu ar gyfer goruchwyliaeth a chraffu democrataidd. Tybiwyd y câi Bwrdd ar gyfer y Cydwasanaeth Gweinyddol ei ddatblygu. Disgwylir i'r Bwrdd hwn gynnwys cyfuniad o gynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol ac aelodau anweithredol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol yn cyfateb i **£19,200** y flwyddyn. Ochr yn ochr â hyn tybiwyd y câi cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu ei sefydlu, a fyddai'n cynnwys o leiaf 22 o Aelodau Etholedig, h.y. un o bob un o'r Awdurdodau. Tybiwyd na fyddent yn cael unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol ond yr eid i gostau teithio a chynhaliaeth. Tybiwyd hefyd y byddai'r pwyllgor hwn yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac y byddai angen cymorth ychwanegol arno ar gyfer pob cyfarfod. Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol yn cyfateb i **£4,800** y flwyddyn.

Costau eraill

Mae nifer o gostau posibl na ellir eu cyfrifo i'w hystyried hefyd. Maent wedi'u crynhoi o dan y penawdau canlynol:

- Pwysau ehangach ar Awdurdodau Lleol

- Heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio i leoliadau canolog
- Her cydweithredu
- Ystyriaethau pellach

Pwysau ehangach ar Awdurdodau Lleol

Byddai'r dull hwn o weithredu yn canolbwyntio ar y swyddogaethau gweinyddol o fewn Awdurdodau Lleol ond ni fyddai'n ceisio mynd i'r afael â'r pwysau ehangach sy'n wynebu Awdurdodau Lleol, er enghraifft, pwysau demograffig.

Byddai Awdurdodau Lleol yn parhau ar eu ffurf bresennol ac ni fyddai unrhyw newid o ran eu cydnerthedd, eu gallu a'u hadnoddau. Byddai Cydwasanaeth Gweinyddol hefyd yn cynyddu cymhlethdod amgylchedd Llywodraeth Leol, gyda set arall o gydberthnasau i'w rheoli.

Heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio i leoliadau canolog

Byddai Opsiwn 2 yn gofyn am un neu ragor o ganolfannau cydwasanaeth. Byddai angen penderfynu ar y model lleoliadau. Mae heriau yn gysylltiedig â lleoliadau canolog a modelau gwasgaredig. Byddai model canolog yn golygu crynhoi arbenigedd mewn un ardal yng Nghymru. Ar ôl penderfynu ar leoliad, efallai y bydd angen adleoli rhai swyddi neu addasu eu trefniadau gwaith er mwyn ateb y galw cynyddol am swyddi gweinyddol yn y ganolfan honno a ddewiswyd. Byddai'r dull hwn o weithredu yn golygu bod llai o gyfleoedd lleol i staff gweinyddol mewn rhannau o Gymru. Yn yr un modd, gallai beri anawsterau o ran recriwtio staff sy'n meddu ar y sgiliau cywir.

Gallai model gwasgaredig gyflwyno heriau o ran rheoli, cydgysylltu a rheoli ansawdd. Yn yr un modd, byddai'n ei gwneud yn bosibl i wasanaethau arbenigol gael eu datblygu mewn lleoliadau gwahanol ac yn cynnig cyfleoedd datblygu i staff Awdurdodau Lleol.

Her cydweithredu

Heb ddeddfwriaeth, byddai Opsiwn 2 yn gofyn am gryn dipyn o gydweithredu gwirfoddol er mwyn rhoi Cydwasanaeth Gweinyddol ar waith yn llwyddiannus. Ar hyn o bryd mae gan Awdurdodau Lleol eu ffyrdd eu hunain o weithio a phrosesau penodol unigol. Byddai angen i bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol werthuso'r rhain a nodi dull gweithredu cyffredin a chytuno arno.

Byddai angen i bob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol ddatblygu strwythur llywodraethu a chytuno arno. Ni fyddai cydwasanaeth gweinyddol yn golygu unrhyw newid sefydliadol strwythurol na democrataidd a byddai angen cytuno ar unrhyw swyddogaeth newydd heb newid strwythurau llywodraethu democrataidd presennol Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, byddai angen cael lefel ychwanegol o bersonél er mwyn rheoli trefniant y cydwasanaeth. Byddai hyn yn her, gyda 22 o randdeiliaid cyfartal yn ceisio cytuno ar ateb cyffredin.

Hefyd, byddai angen newid sylweddol mewn diwylliant ymhob rhan o Lywodraeth Leol, gyda phob aelod o staff gweinyddol yn gweithio ar lwyfan TGCh cyffredin ac o fewn fframwaith neu weithdrefnau a phrosesau y cytunwyd arnynt. Nododd y Comisiwn nad oedd yn credu bod cydweithredu wedi llwyddo, ar y cyfan, i gyflawni ei nod hyd yma. Yn hytrach na goresgyn cymhlethdod cydberthnasau, ffiniau a chyfrifoldebau, roedd cydweithredu, mewn rhai achosion, wedi ychwanegu'n sylweddol ato drwy greu set bellach o brosesau i'w dilyn a chydberthnasau i'w rheoli. Cyfeiriodd CLILC at yr heriau hyn yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus:

“A negative by-product of the regional collaboration agenda has been a perception of multiplicities of structures (both in terms of services and governance) existing to oversee joint working and shared services. This has led to concerns about the blurring of democratic accountability, clarity of redress, variable scrutiny and much expense involved.”

Y dystiolaeth o ffynonellau eraill yw ei bod yn ddutach sefydlu cydwasanaethau sy'n cynnwys integreiddio prosesau a systemau TGCh ar wahân a throsglwyddo staff. Yn 2012 edrychodd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol ar b'un a oedd cydwasanaethau wedi sicrhau gwerth am arian i lywodraeth ganolog, gan adolygu pum canolfan. Canfu fod y pum canolfan wedi costio mwy nag £1.4 biliwn ac mai tameidiog oedd y manteision a sicrhawyd, gyda dim ond un ganolfan yn dangos ei bod llwyddo i ad-dalu'r buddsoddiad a wnaed ynddi.

Ystyriaethau pellach

Mae'r dull hwn o weithredu yn tybio ei bod yn hawdd nodi gwasanaethau gweinyddol ac y gellir eu gwahanu oddi wrth swyddogaethau eraill a gyflawnir gan Awdurdodau Lleol. Mae hyn yn annhebygol o ddigwydd, gan fod tasgau gweinyddol yn debygol o fod wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar brosesau Awdurdodau Lleol. Felly, byddai nodi meysydd gweinyddol o fusnes Awdurdodau Lleol a'u hailbennu'n ddetholus yn dasg gymhleth a heriol iawn. Pe bai'r opsiwn hwn yn cael ei ddewis, byddai angen gwneud cryn dipyn o waith pellach i nodi pa swyddogaethau y gellid eu hymgorffori yn y cydwasanaeth gweinyddol. Byddai angen gweithredu pob un o'r newidiadau uchod heb amharu ar ansawdd gwasanaethau.

Gallai rhyw fath o Gydwasanaeth Gweinyddol fod yn opsiwn dichonadwy, ond ar ei ben ei hun mae'n annhebygol o gyflawni maint y newid sydd ei angen er mwyn ateb yr heriau ariannol a demograffig a nodir yn y cyflwyniad i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

Cyfanswm y Costau Amcangyfrifedig

Mae cyfanswm y gost amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru, a nodwyd uchod ar gyfer Opsiwn 2, yn amrywio o **£71 miliwn i £186 miliwn**. Mae Gwerthoedd Presennol Net cyfatebol y costau amcangyfrifedig rhwng £60 miliwn a £158 miliwn.

MANTEISION

Manteision i Lywodraeth Leol

Ar hyn o bryd mae rhywfaint o gysondeb o ran y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn cyflawni eu swyddogaethau gweinyddol. Mae hyn wedi arwain at amrywiaeth eang o ddulliau a dyblygu costau fel y nodwyd gan adroddiad KPMG.

Mae rhai manteision clir yn gysylltiedig â chreu cydwasanaeth gweinyddol: llai o variant, mwy o gydnerthedd, gwella gwasanaethau i gwsmeriaid a sicrhau dull cydgysylltiedig, mwy cyson o reoli tasgau gweinyddol o fewn Llywodraeth Leol.

Ystyriwyd y manteision i Lywodraeth Leol sy'n gysylltiedig â chydwasanaeth gweinyddol o dan y penawdau canlynol:

- Graddfa fwy, mwy o adnoddau a chostau is
- Dull gweithredu cyson
- Gwasanaethau o ansawdd uwch
- Mae'n osgoi newid trefniadau llywodraethu strwythurol a demograffig
- Pennu'r maint mwyaf ffafriol ar gyfer swyddogaethau
- Rhesymoli ystadau

Graddfa fwy, mwy o adnoddau a chostau is

Gydag un ganolfan weinyddol fwy o faint byddai dull cadarnach o gyflawni swyddogaethau dethol, gyda mwy o adnoddau. Byddai gallu ac adnoddau cynyddol cydwasanaeth gweinyddol yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd newydd i arloesi wrth ddarparu gwasanaethau i Awdurdodau Lleol. Drwy ddatblygu un Llwyfan TGCh i gyflawni swyddogaethau gweinyddol, byddai modd i Awdurdodau Lleol fanteisio ar gyfoeth o ddata a gwybodaeth gyson wrth ystyried y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau gweinyddol a gwasanaethau i'r cyhoedd. Byddai graddfa fwy a mwy o adnoddau yn galluogi Llywodraeth Leol i gynyddu ei photensial i arloesi, gan ddarparu cronfa benodol o arbenigedd a chreu mwy o gyfleoedd arbenigol, sy'n golygu y byddai'r cyd-swyddogaethau yn gadarnach ac yn fwy cynaliadwy.

Mae adroddiad KPMG, sef *Administrative Cost Review*, yn nodi bod cost a pherfformiad gweithgareddau gweinyddol yn amrywio'n fawr rhwng Awdurdodau Lleol. Yn gyffredinol, mae Awdurdodau mwy o faint yn dangos mwy o gosteffeithiolrwydd fesul trafodyn o gymharu ag Awdurdodau llai o faint. Mae'r adroddiad yn argymhell y dylid ystyried manteision trosglwyddo gweithgareddau trafodol i sefydliadau mwy o faint. Mae'r adroddiad yn nodi y byddai'r dull hwn o weithredu yn cynnig cyfle i drafodiadau gael budd o brosesau a systemau wedi'u safoni yn ogystal ag arbedion maint. Mae adroddiad KPMG yn awgrymu y gallai graddfa fwy a mwy o adnoddau arwain at arbedion.

Disgwylir y gellid cyflawni cyfran fawr o'r arbedion effeithlonrwydd hyn drwy leihau nifer y swyddi. Amcangyfrifir y byddai lleihau'r gofyniad am swyddi gweinyddol

rhwng 5 y cant a 10 y cant yn arbed rhwng **£15.0 miliwn a £29.9 miliwn** bob blwyddyn.

Dull gweithredu cyson

Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau bod gan y 22 o Awdurdodau Lleol ddull cyson o gyflawni eu swyddogaethau gweinyddol. Nod yr opsiwn hwn fyddai darparu swyddogaethau gweinyddol sy'n effeithlon ac yn ddigon cadarn i bob Awdurdod Lleol.

Drwy leihau gwahaniaethau creid amrywiaeth o arbedion effeithlonrwydd a chyfleoedd nad ydynt yn bosibl ar hyn o bryd. Er enghraifft, byddai systemau a llwyfannau TGCh cyffredin yn galluogi staff i symud rhwng Awdurdodau Lleol yn haws oherwydd byddai eu sgiliau a'u harbenigedd yn uniongyrchol drosglwyddadwy. Byddai'r gronfa dalent hyblyg hon yn ei gwneud yn bosibl i staff gael eu trosglwyddo'n gyflym ac yn hawdd a gallai annog cydweithredu ehangach rhwng Awdurdodau Lleol.

O dan yr opsiwn hwn byddai angen un corff cydwasanaeth i gaffael gwasanaethau ar y cyd a rhannu seilwaith TGCh a seilwaith. Byddai pob un o'r rhain yn lleihau'r costau gweinyddol cyffredinol i Lywodraeth Leol. Nododd adroddiad KPMG, sef *Administrative Cost Review*, y câi rhwng **£3.2 miliwn a £20.5 miliwn** y flwyddyn ei arbed drwy roi strategaeth TGCh safonol ar waith. Nodwyd yr arbedion hyn drwy amrywiaeth o gamau cydweithredol ym maes TGCh, y gellid disgwyl i bob un ohonynt ffurfio rhan o opsiwn y cydwasanaeth gweinyddol.

Gwasanaethau o ansawdd uwch

Ynghyd â mwy o gysondeb, disgwylir y byddai Cydwasanaeth Gweinyddol yn gwella ansawdd prosesau darparu gwasanaethau yn gyffredinol drwy ddatblygu dulliau gweithredu cyffredin a rhannu arbenigedd. Un o isgynhyrchion pwysicaf cydwasanaethau yn gyffredinol yw data a gwaith dadansoddi manylach o ran y modd y darperir gwasanaethau ac ymddygiad cwsmeriaid, sy'n ei gwneud yn bosibl i droi data'n wybodaeth. Gall hyn gynnig cyfleoedd pwysig i wella effeithiolrwydd gwasanaeth, lleihau amrywiadau, rheoli'r galw am wasanaethau a lleihau costau. Fodd bynnag, mae angen ystyried hyn ochr yn ochr â'r posibilrwydd y collir hyblygrwydd lleol.

Mae'n osgoi newid trefniadau llywodraethu strwythurol a demograffig

Un o fanteision clir y dull hwn o weithredu, o gymharu ag uno Awdurdodau Lleol, yw ei fod yn osgoi'r lefel o newid sydd ei angen i sefydlu Awdurdodau Lleol newydd sy'n fwy o faint. Byddai'r dull gweithredu hwn sy'n seiliedig ar Gydwasanaeth Gweinyddol yn canolbwyntio ar ddetholiad penodol o swyddogaethau gweinyddol o fewn Awdurdodau Lleol ac ni fyddai'n cynnwys newidiadau mwy pellgyrhaeddol.

Drwy osgoi prosesau uno strwythurol cyfyngid ar y newidiadau y byddai Awdurdodau Lleol yn eu hwynebu. Fodd bynnag, byddai hefyd yn cyfyngu ar y manteision posibl.

Pennu'r maint mwyaf ffafriol ar gyfer swyddogaethau

Mae adroddiad KPMG yn nodi bod amrywiadau sylweddol ar hyn o bryd o ran y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yn cyflawni swyddogaethau gweinyddol. Byddai Opsiwn 2 yn rhoi cyfle i roi dull mwy effeithlon, mwy darbodus o ddarparu gwasanaethau ar waith. Nododd KPMG ddull gweithredu wedi'i safoni ac y gellid arbed rhwng **£7.8 a £22.8 miliwn** y flwyddyn drwy roi swyddogaethau o'r maint mwyaf ffafriol ar waith.

Rhesymoli ystadau

Mae cyfle i ystyried gofynion pob Awdurdod Lleol o ran eiddo fel rhan o'r newid arfaethedig hwn. Efallai y bydd y dull hwn o weithredu yn galluogi pob Awdurdod Lleol i gyfuno a rhesymoli eu hadeiladau gweinyddol, gan sicrhau y gwneir y defnydd gorau posibl o asedau.

Ni ellir mesur y manteision sy'n gysylltiedig â'r newid hwn ar hyn o bryd ond dylid ei ystyried yn gyfle.

Cyfanswm y Manteision Amcangyfrifedig

Ar gyfer **Opsiwn 2**, ochr yn ochr â'r manteision na ellir eu mesur, nodwyd ystod amcangyfrifedig o arbedion gwerth rhwng **£26 miliwn** a **£73 miliwn** y flwyddyn. Mae cyfanswm yr arbedion amcangyfrifedig rhwng 2019/20 a 2028/29 rhwng **£260 miliwn** a **£732 miliwn**, gyda Gwerth Presennol Net o rhwng £202 miliwn a £568 miliwn.

OPSIWN 2: TABLAU CRYNO

Tabl 1: Opsiwn y Cydwasanaeth Gweinyddol – Crynodeb o'r Costau

	£,000											
	2019/20		2020/21		2021/22		2022/23 i 2028/29		Cyfanswm		GPN	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
<u>Llywodraeth Cymru</u>												
Tîm Cymorth	£495	£495	£495	£495	£495	£495	£1,534	£1,534	£3,017	£3,017	£2,421	£2,421
<u>Llywodraeth Leol</u>												
Systemau TG	£10,000	£30,000	£10,000	£30,000	£10,000	£30,000	£20,000	£60,000	£50,000	£150,000	£42,149	£126,446
Cymorth Ymgynghori	£1,650	£2,200	£1,100	£1,650	£550	£1,100	-	-	£3,300	£4,950	£2,910	£4,348
Costau Hyfforddiant	£1,403	£1,480	£1,403	£1,480	£1,403	£1,480	-	-	£4,208	£4,441	£3,668	£3,872
Costau Teithio Ychwanegol	£608	£1,013	£608	£1,013	£608	£1,013	-	-	£1,823	£3,038	£1,589	£2,648
Costau Taliadau Dileu Swyddi Staff / Ymddeoliad Cynnar	£8,127	£19,995	-	-	-	-	-	-	£8,127	£19,995	£7,330	£18,034
Trefniadau Llywodraethu	£24	£24	£24	£24	£24	£24	£144	£144	£240	£240	£186	£186
Cyfanswm	£22,306	£55,206	£13,629	£34,661	£13,079	£34,111	£21,702	£61,702	£70,714	£185,681	£60,067	£157,769

Tabl 2: Opsiwn y Cydwasanaeth Gweinyddol – Crynodeb o'r Arbedion

	£,000											
	2019/20		2020/21		2021/22		2022/23 i 2028/29		Cyfanswm		GPN	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
<u>Llywodraeth Leol</u>												
Gostyngiad yn nifer y Swyddi Gweinyddol	£14,960	£29,920	£14,960	£29,920	£14,960	£29,920	£104,720	£209,440	£149,600	£299,200	£116,144	£232,288
Dull Gweithredu Cyson	£3,200	£20,500	£3,200	£20,500	£3,200	£20,500	£22,400	£143,500	£32,000	£205,000	£24,844	£159,155
Graddfa fwy a mwy o adnoddau	£7,800	£22,800	£7,800	£22,800	£7,800	£22,800	£54,600	£159,600	£78,000	£228,000	£60,556	£177,011
Cyfanswm	£25,960	£73,220	£25,960	£73,220	£25,960	£73,220	£181,720	£512,540	£259,600	£732,200	£201,544	£568,454

Opsiynau 3a a 3b – Uno Awdurdodau Lleol

Opsiwn 3a – 12 o Awdurdodau Lleol

Opsiwn 3b - Wyth neu Naw Awdurdod Lleol

Cydnabu'r Comisiwn y gallai newid strwythurol fod yn gostus ac yn aflonyddgar. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad y byddai cost gwneud dim yn uwch. Nododd nad yw strwythur presennol y 22 o Awdurdodau Lleol yn gynaliadwy ac y byddai'r arbedion hirdymor a ddeilliai o uno Awdurdodau Lleol yn gwrthbwysu'r costau byrdymor cyn pen dim.

Awgrymodd y Comisiwn y byddai manteision uno Awdurdodau Lleol yn ymestyn y tu hwnt i'r sefydliadau hynny eu hunain i'r sector cyhoeddus cyfan drwy leihau cymhlethdod a'r amser a dreulir yn ei reoli. Awgrymodd 'Opsiwn 1' y Comisiwn 12 o Awdurdodau Lleol. Dyma'r opsiwn a oedd yn cynnwys y 'newid lleiaf', gan ei fod yn golygu uno'r nifer leiaf o awdurdodau lleol. Fe'i disgrifiwyd gan y Comisiwn fel yr opsiwn sy'n cynnig y lefel gynaliadwy isaf o newid ynghyd â'r risg isaf o golli ymatebolrwydd, h.y. maint yr Awdurdod a'i gydberthynas â'r cyhoedd a wasanaethir ganddo. Disgwylid iddo hefyd osgoi problem graddfa ormodol neu wahaniaethau mawr iawn o ran y Dreth Gyngor.

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn trafodir sefydlu naw Awdurdod Lleol newydd, gyda thri Awdurdod, sef Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Phowys, yn parhau ar eu ffurf bresennol. Mae'r Tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer uno Awdurdodau Lleol, poblogaeth yr Awdurdodau Lleol presennol a phoblogaeth gyfunol y Cyngorau Sir newydd a grëir o dan yr Opsiwn hwn.

Tabl 3: Uno Awdurdodau Lleol - Opsiwn 3a

Enw	Ardal	Poblogaeth Gyfunol
Sir 1	Ynys Môn a Gwynedd	192,442
Sir 2	Conwy a Sir Ddinbych	211,078
Sir 3	Sir y Fflint a Wrecsam	290,518
Sir 4	Ceredigion a Sir Benfro	199,091
Sir 5	Castell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr	281,704
Sir 6	Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful	295,953
Sir 7	Caerdydd a Bro Morgannwg	481,979
Sir 8	Blaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen	341,224
Sir 9	Sir Fynwy a Chasnewydd	239,177
Powys	Powys	132,675
Sir Gaerfyrddin	Sir Gaerfyrddin	184,898
Abertawe	Abertawe	241,297

Daw'r ffigurau ar gyfer poblogaethau o amcangyfrifon canol blwyddyn Llywodraeth Leol ar gyfer 2014.

Cyflwynodd adroddiad y Comisiwn bedwar opsiwn ac ym mis Mehefin 2015 cyhoeddodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ddatganiad a oedd yn adeiladu ar yr opsiynau hyn, gan nodi'r achos dros sefydlu naill ai saith neu wyth Cyngor newydd, gydag un (Powys) yn parhau ar ei ffurf bresennol. Fel y nodir yn Nhablau 4 a 5 byddai hyn yn creu wyth neu naw Cyngor Sir newydd. Mae'r Papur Ymgynghori sy'n ategu'r Bil Drafft hwn yn nodi'r rhesymeg dros y cynnig hwn, gan gynnwys sut y bwriedir i'r cynigion a nodir yn Rhan 2 o'r Asesiad Effaith

Rheoleiddiol drafft hwn fynd i'r afael â'r materion a nodwyd gan y Comisiwn mewn perthynas â lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol o dan 12.

Uno Awdurdodau Lleol – Opsiwn 3b- Wyth neu Naw Awdurdod Lleol:

Tabl 4: Wyth Awdurdod Lleol

Enw	Ardal	Poblogaeth Gyfunol
Sir 1	Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy	308,729
Sir 2	Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam	385,309
Sir 3	Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin	383,989
Sir 4	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	381,787
Sir 5	Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful	437,167
Sir 6	Caerdydd a Bro Morgannwg	481,979
Sir 7	Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd	580,401
Powys	Powys	132,675

Tabl 5: Naw Awdurdod Lleol

Enw	Ardal	Poblogaeth Gyfunol
Sir 1	Ynys Môn a Gwynedd	192,442
Sir 2	Conwy a Sir Ddinbych	211,078
Sir 3	Sir y Fflint a Wrecsam	290,518
Sir 4	Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin	383,989
Sir 5	Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot	381,787
Sir 6	Pen-y-bont ar Ogwr, a Merthyr Tudful	437,167
Sir 7	Caerdydd a Bro Morgannwg	481,979
Sir 8	Blaenau Gwent, Caerffili, Torfaen, Sir Fynwy a Chasnewydd	580,401
Powys	Powys	132,675

COSTAU

Byddai Opsiwn 3 (3a a 3b) yn cynnwys newid strwythurol i Lywodraeth Leol drwy uno Awdurdodau Lleol. Byddai amrywiaeth o gostau yn gysylltiedig â hyn, fel a ganlyn. Nid yw rhai costau amcangyfrifedig yn dibynnu ar nifer y Cyngorau Sir ac nid ydynt yr un peth ar gyfer Opsiwn 3a a 3b. Mae'r costau amcangyfrifedig sy'n dibynnu ar nifer y Cyngorau Sir yn ystyried y newidyn hwn. Mae'r ystodau a gyflwynir ar gyfer Opsiwn 3b yn ystyried y posibilrwydd y gallai fod wyth neu naw Cyngor Sir.

Costau i Lywodraeth Cymru

Mae'r costau hyn wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

- Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus
- Sefydlu a chefnogi Awdurdodau Cysgodol
- Costau tîm cymorth Llywodraeth Cymru

Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Medi 2015 i roi cyngor a chymorth ar faterion gweithlu, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r cynnig i uno'r 22 o Awdurdodau Lleol presennol.

Ystyriwyd sefydlu a rhedeg Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail statudol yn y Bil Drafft hwn fel bwriad polisi yn ei rinwedd ei hun ac mae ystyriaeth lawn o unrhyw gostau a manteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn wedi'i hasesu yn Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft. Er mwyn cyflawnder nodir yma na nodir unrhyw gostau ychwanegol.

Sefydlu a chefnogi Awdurdodau Cysgodol

Byddai angen gwneud penderfyniadau pwysig megis penodi uwch aelodau o staff, cytuno ar gynlluniau darparu gwasanaethau cychwynnol a phennu cyllideb a Threth Gyngor y flwyddyn gyntaf cyn i unrhyw Gynghorau newydd ddod i fodolaeth. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y gall Cynghorau Sir newydd weithredu'n effeithiol ac yn gyfreithlon o 1 Ebrill 2020 pan fyddant yn ymgymryd â'u swyddogaethau llawn.

Yr arfer yn ystod newidiadau strwythurol blaenorol oedd sefydlu Awdurdod Cysgodol, drwy gynnal etholiad ar gyfer yr Ardal newydd gyfan yn y flwyddyn cyn i'r Cyngor Sir newydd ymgymryd â'i holl gyfrifoldebau. Mae'r Awdurdod Cysgodol yn darparu arweinyddiaeth a etholwyd yn ddemocrataidd ledled yr ardal newydd ac mae'n gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol. Byddai'r Awdurdod Cysgodol yn cyflawni swyddogaethau penodol ac yn gweithio gyda chymorth Cyd-bwyllgor Pontio a'r Awdurdodau presennol (a fyddai'n parhau i gyflawni swyddogaethau'r Cyngor o ddydd i ddydd yn ystod y cyfnod Cysgodol) er mwyn sicrhau bod y broses o bontio i'r strwythur newydd mor ddidrafferth ac effeithiol â phosibl.

Costau tîm cymorth Llywodraeth Cymru

Mae'r Bil Drafft yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas ag Awdurdodau Cysgodol a chyhoeddi canllawiau a thybiwyd y byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn sefydlu tîm i gefnogi'r Awdurdodau Cysgodol newydd yn ystod y cyfnod cyn 1 Ebrill 2020.

Byddai angen y tîm hwn yn ystod y tair blynedd cyn ethol y Cynghorau Sir newydd ym mis Mai 2019 ac ar gyfer y cyfnod 'cysgodol' canlynol o 11 mis.

Isod rhoddir strwythur tybiedig y tîm, mae'r costau hyn yn seiliedig ar ofyniad amcangyfrifedig am swyddogion cyfwerth ag amser llawn (CALI) dros y cyfnod o bedair blynedd. Deuai cyfran fawr o'r adnoddau a nodwyd o staff presennol yn neilltuo cyfran o'u hamser.

Mae costau cyfleoedd amser swyddog wedi cael eu casglu ynghyd a'u crynhoi yn y strwythur staff isod. Er enghraifft, pe bai angen i ddau Ddirprwy Gyfarwyddwr presennol dreulio 50 y cant o'u hamser yr un ar yr agenda ddiwygio dros y cyfnod o bedair blynedd, yna maent wedi'u nodi yn y tabl isod fel un Dirprwy Gyfarwyddwr llawn amser.

Tabl 6: Costau Staff Cymorth Llywodraeth Cymru

Gradd Staff	Cost Flynyddol Gyfartalog	Nifer y Staff sydd eu Hangen	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cyfanswm	Cyfanswm (Gwerth Presennol)
<u>Tîm y Rhaglen</u>								
Dirprwy Gyfarwyddwr	£101,400	3	£304,200	£304,200	£304,200	£304,200	£1,216,800	£1,156,500
Band Gweithredol 1	£85,900	1	£85,900	£85,900	£85,900	£85,900	£343,600	£326,600
Band Gweithredol 2	£69,400	8	£555,200	£555,200	£555,200	£555,200	£2,220,800	£2,110,700
Uwch Swyddog Gweithredol	£51,900	5	£259,500	£259,500	£259,500	£259,500	£1,038,000	£986,500
Swyddog Gweithredol Uwch	£40,600	6	£243,600	£243,600	£243,600	£243,600	£974,400	£926,100
Tîm Cymorth	£25,700	2	£51,400	£51,400	£51,400	£51,400	£205,600	£195,400
<u>Cymorth Cyfreithiol</u>								
Dirprwy Gyfarwyddwr	£101,400	1	£101,400	£101,400	£101,400	£101,400	£405,600	£385,500
Band Gweithredol 1	£85,900	1	£85,900	£85,900	£85,900	£85,900	£343,600	£326,600
Band Gweithredol 2	£69,400	4	£277,600	£277,600	£277,600	£277,600	£1,110,400	£1,055,300
Cyfanswm			£1,964,700	£1,964,700	£1,964,700	£1,964,700	£7,858,800	£7,469,100

Mae'r amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar gost flynyddol cyflogi pob gradd o swyddog o fewn Llywodraeth Cymru, ar gyfartaledd, gan gynnwys Cyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwr.

Tybir y byddai'r tîm yn gweithio'n llawn amser am y cyfnod llawn o bedair blynedd. Yn ymarferol, mae'n bosibl na fydd hynny'n digwydd. Gall strwythurau tîm ddatblygu wrth i'r rhaglen fynd rhagddi. Fodd bynnag, ni ddisgwylir y byddai unrhyw newidiadau yn cael effaith sylweddol ar yr amcangyfrifon blynyddol yn gyffredinol.

Amcangyfrifwyd y byddai'r gost flynyddol i Lywodraeth Cymru bron yn **£2 filiwn** y flwyddyn ac, felly, bron yn **£8 miliwn** dros y cyfnod o bedair blynedd (rhwng 2016-17 a 2019-20).

Nid ystyrir bod yr adnoddau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar nifer yr Awdurdodau newydd a grëir, felly mae'r costau hyn yn gymwys i Opsiwn 3a ac i wyth awdurdod neu naw awdurdod a nodir yn Opsiwn 3b.

Costau i Lywodraeth Leol

Mae'r costau posibl fel a ganlyn:

- Costau'r Pwyllgor Pontio
- Costau Awdurdodau Cysgodol
- Costau staff
- Costau rheoli ystadau
- Costau gwasanaethau TGCh

- Costau rheoli newid
- Costau ailfrandio
- Costau cysoni'r Dreth Gyngor
- Arian gan yr UE

Costau'r Pwyllgor Pontio

Fel rhan o raglen ad-drefnu Llywodraeth Leol yng Nghymru yn 1996 sefydlwyd Cydbwyllgorau Pontio i ystyried materion trosiannol a rhoi cyngor i Awdurdodau Lleol a oedd yn uno arnynt.

Bydd Bil cyntaf Llywodraeth Leol (Cymru), sy'n aros am Gydsyniad Brenhinol y disgwylir iddo gael ei roi erbyn diwedd mis Tachwedd 2015, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sy'n uno sefydlu Pwyllgor Pontio (un ar gyfer pob ardal Cyngor Sir newydd). Mae rôl y Pwyllgor Pontio yn cynnwys rhoi cyngor ac argymhellion i Awdurdodau sy'n uno ac Awdurdodau Cysgodol ar gyfer hwyluso'r broses o drosglwyddo swyddogaethau, staff a hawliau a rhwymedigaethau eiddo i'r Awdurdodau newydd mewn ffordd ddarbodus, effeithiol ac effeithlon. Mae'n rhaid i'r Pwyllgorau hefyd roi cyngor ac argymhellion ar gyfer sicrhau y bydd y Cyngor Sir newydd yn gallu gweithredu'n effeithiol o'r diwrnod cyntaf y byddant yn ymgymryd â'u holl swyddogaethau, sef 1 Ebrill 2020. Aseswyd y costau sy'n gysylltiedig â chreu Pwyllgorau Pontio yn llawn yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n ategu Bil Llywodraeth Leol (Cymru) ac, felly, nis ystyrir ymhellach yma¹¹.

Costau Awdurdodau Cysgodol

Mae'r Bil Drafft hwn yn darparu ar gyfer etholiadau ar gyfer pob un o'r Cyngorau Sir newydd sy'n cael eu creu i'w cynnal ym mis Mai 2019. Mae hefyd yn darparu, yn ystod y cyfnod rhwng eu hethol a 1 Ebrill 2020, y bydd Awdurdodau Cysgodol.

Fel Awdurdodau Cysgodol, byddant yn cyflawni swyddogaethau penodol a roddir iddynt drwy reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru. Y swyddogaethau a roddir iddynt fydd y swyddogaethau hynny y mae angen eu cyflawni cyn 1 Ebrill 2020. Eir i wariant hefyd gan yr Awdurdod Cysgodol neu mewn cysylltiedig ag ef, er enghraifft talu cyflogau i Brif Swyddogion newydd eu penodi, gweinyddu Pwyllgorau'r Awdurdod Cysgodol, anfon y biliau Treth Gyngor cynaf a thalu cydnabyddiaeth i Gynghorwyr a etholwyd i'r Awdurdod Cysgodol. Bydd rhai o'r costau hyn yn arwain at arbedion cyfatebol i'r Awdurdodau Lleol presennol ac, felly, nid ystyriwyd eu bod yn gostau ychwanegol sy'n deillio o'r broses uno.

Dim ond yn ystod y cyfnod o 11 mis sy'n dechrau gydag etholiadau Cyngorau Sir newydd ym mis Mai 2019 ac yn gorffen ar 1 Ebrill 2020 yr eid i unrhyw gostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â rhedeg yr Awdurdodau Cysgodol.

Mae'r costau hyn fel a ganlyn:

¹¹<http://www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?IId=11809>

- Ethol Cyngorau Sir newydd (Mai 2019)
- Swyddogion dros dro yn gwasanaethu'r Awdurdodau Cysgodol
- Cydnabyddiaeth Cyngorwyr Awdurdodau Cysgodol
- Cost hysbysebu a phenodi'r uwch dîm rheoli

Ethol Cyngorau Sir newydd (Mai 2019)

Byddai'r Cyngorwyr a etholid yn yr etholiadau hyn yn ffurfio'r Cyngorau Sir newydd, a fyddai'n bodoli ar ffurf Awdurdodau Cysgodol tan 1 Ebrill 2020. Dim ond swyddogaethau paratoi penodol a gyflawnir gan yr Awdurdodau Cysgodol a byddant yn gwasanaethu ochr yn ochr â'r Awdurdodau presennol tan hynny. Ar 1 Ebrill 2020, caiff yr Awdurdodau Lleol presennol eu diddymu, bydd eu Cyngorwyr yn ymddiswyddo a bydd Cyngorwyr y Cyngorau Sir newydd wedyn yn mynd yn gyfrifol am gyflawni holl swyddogaethau Llywodraeth Leol.

Mae'r rhaid i'r Awdurdodau Lleol presennol ragweld gwario ar etholiadau bob pedair blynedd. Heb y rhaglen uno, cynhelid etholiadau i'r Awdurdodau Lleol presennol yn 2017 a 2021. Cynhelir etholiadau i'r Awdurdodau Lleol presennol yn unol â'r amserlen yn 2017, ond ar ôl iddynt gael eu diddymu yn 2020 ni chynhelir unrhyw etholiadau i'r Awdurdodau hynny yn 2021. Mae'r rhaglen uno yn rhagweld y cynhelir yr etholiadau cyntaf i'r Awdurdodau newydd (a fydd ar ffurf awdurdodau cysgodol bryd hynny) ym mis Mai 2019, gyda'r ail etholiadau i'r Awdurdodau newydd yn cael eu cynnal yn 2023. Gan y bydd y rhaglen uno yn golygu bod yn rhaid talu costau etholiadau ddwy flynedd ynghynt nag y byddai angen eu talu fel arall, fe'u cyfrifwyd fel costau ychwanegol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r ddarpariaeth hon.

Mae data etholiadau wedi'u casglu drwy'r ffurflenni Alldro Refeniw a gyflwynwyd gan Awdurdodau Lleol i Lywodraeth Cymru ac mae'r data hyn wedi'u defnyddio i amcangyfrif costau posibl etholiadau i Awdurdodau Cysgodol. Yn 2012-13 gwariodd Llywodraeth Leol ychydig dros £9 miliwn ar ei hetholiadau (roedd y gwariant hwn yn ymwneud ag ethol 21 o Gyngorau, cynhaliwyd etholiadau Ynys Môn flwyddyn y ddiweddarach). Disgwylir y byddai angen y lefel hon o wariant (wedi'i gynyddu er mwyn caniatáu ar gyfer chwyddiant a gwariant Ynys Môn yn 2013-14) er mwyn cynnal etholiadau i'r Awdurdodau Cysgodol. Byddai Opsiwn 3a yn creu naw Awdurdod newydd, gan adael tri Awdurdod sy'n bodoli eisoes fel y maent ar hyn o bryd, tra byddai Opsiwn 3b yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal etholiadau mewn saith neu wyth Awdurdod, gan adael un Awdurdod i barhau ar ei ffurf bresennol. Fodd bynnag, byddai Awdurdodau sy'n parhau hefyd yn cynnal etholiadau yn 2020 o ganlyniad uniongyrchol i'r rhaglen un (fel na fydd yn rhaid i Gyngorwyr barhau yn eu swydd am chwe blynedd).

Ar gyfer **Opsiwn 3a**, amcangyfrifir y byddai etholiadau a gynhelid o ganlyniad i'r rhaglen uno yn y flwyddyn ariannol 2019-20 yn costio rhwng **£8.3 miliwn a £9.1 miliwn** a rhwng **£1.3 miliwn a £1.4 miliwn yn 2020-21**. Ar gyfer **Opsiwn 3b**

amcangyfrifwyd y byddent yn costio rhwng **£9.2 miliwn a £10.1 miliwn yn 2019-20** a rhwng **£440,000 a £480,000 yn 2020-21**. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Swyddogion dros dro sy'n gwasanaethu'r Awdurdod Cysgodol

Disgwylir i lawer o'r gwaith a wneir yn enw'r Awdurdodau Cysgodol gael ei wneud gan swyddogion yr Awdurdodau Lleol presennol sy'n uno fel rhan o'r broses raddol o drosglwyddo eu cyfrifoldebau o'r Awdurdod Lleol presennol i'r Cyngor Sir newydd. Byddai hyn hefyd yn wir yn achos uwch swyddogion, gan gynnwys y Prif Weithredwr, nes i'r Awdurdod Cysgodol benodi ei uwch swyddogion.

Disgwylir hefyd y byddai'r rhan fwyaf o'r gwaith a wneid gan yr Awdurdod Cysgodol yn debyg i'r gwaith cynllunio strategol ac ariannol blaengar y mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol ei wneud ar hyn o bryd, a byddai'n disodli'r gwaith hwn.

Fodd bynnag, gallai fod rhai gofynion gweinyddol ychwanegol oherwydd byddai angen cymorth swyddogion dros dro ar Awdurdodau Cysgodol am 11 mis, er mwyn cefnogi eu cyfarfodydd er enghraifft. Ar ôl y cyfnod hwn byddai'r Cyngor Sir newydd yn cymryd yr awenau yn swyddogol.

Tybiwyd, ar gyfer pob opsiwn, y byddai angen rhwng tri neu bedwar aelod o staff gweinyddol ychwanegol ar bob Awdurdod Cysgodol. Felly, cynhwyswyd cost ychwanegol amcangyfrifedig o rhwng £100,000 a £130,000 fesul Awdurdod Cysgodol newydd. O dan **Opsiwn 3a** byddai angen sefydlu naw Awdurdod Cysgodol am gost o rhwng **£860,000 a £1.15 miliwn**. O dan **Opsiwn 3b** byddai angen sefydlu saith neu wyth Awdurdod Cysgodol am gost o rhwng **£670,000 a £1.02 miliwn**. Yn y ddau achos, eid i'r gost hon yn y flwyddyn cyn 1 Ebrill 2020.

Cydnabyddiaeth Cynghorwyr Awdurdodau Cysgodol

Yn ystod yr 11 mis cyn ethol y Cyngorau Sir newydd a 1 Ebrill 2020, bydd Cynghorwyr ar gyfer yr Awdurdodau Cysgodol a'r Awdurdodau Lleol presennol (dylid nodi ei bod yn debygol y bydd llawer o'r Cyngorau a etholir i'r Awdurdodau Cysgodol hefyd yn Gynghorwyr yn yr Awdurdodau Lleol presennol).

Nid yw cydnabyddiaeth y Cynghorwyr newydd yn hysbys ar hyn o bryd ac fe'i pennir gan y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol maes o law. At hynny, mater i'r Panel fyddai penderfynu a fyddai gan Gynghorwyr sy'n dal dwy swydd hawl i ddwy set o gydnabyddiaeth ar wahân neu gydnabyddiaeth ychwanegol ostyngol ar gyfer y rôl ychwanegol neu na fyddai ganddynt hawl i gael unrhyw gydnabyddiaeth ychwanegol.

Byddai Opsiwn 3a yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu naw Awdurdod Cysgodol tra byddai Opsiwn 3b yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu saith neu wyth. Mater i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol fyddai penderfynu ar nifer y Cynghorwyr fesul Cyngor Sir, yn seiliedig ar gyfarwyddiadau a roddir gan y Llywodraeth sydd mewn grym yng Nghymru yn y dyfodol.

Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn defnyddiwyd ystod amcangyfrifedig bosibl ar gyfer Opsiynau 3a a 3b o rhwng 700 a 900 o Gynghorwyr Awdurdodau Cysgodol ar gyfer y cyfnod o 11 mis cyn y Diwrnod Breinio. Defnyddiwyd yr un ystod ar y sail bod yn rhaid i'r un boblogaeth a'r un nifer o etholwyr gael cynrychiolaeth briodol waeth beth fo nifer y Cynghorau Sir. Mae'r ystod hon yn seiliedig ar nifer y Cynghorau mewn Awdurdodau Lleol â phoblogaethau tebyg a niferoedd tebyg o etholwyr ledled y DU. Er mwyn cydnabod y posibilrwydd o aelodaeth ddeuol cynhwyswyd ystod o 60 y cant a 75 y cant o aelodaeth ddeuol.

Amcangyfrifir y caiff Cynghorwyr presennol a etholir i Gynghorau Cysgodol £5,000¹² am eu gwaith yn y Cyngor Cysgodol, ar ben eu cydnabyddiaeth bresennol. Disgwylir i Gynghorwyr newydd (nad ydynt yn dal swyddi fel Cynghorwyr o fewn Llywodraeth Leol yng Nghymru ar hyn o bryd) gael y gydnabyddiaeth gyfartalog ar gyfer Cynghorydd presennol, sef ychydig dros £17,000 y flwyddyn, yn seiliedig ar gyfanswm costau'r Corff presennol o Gynghorwyr, ar gyfartaledd, sy'n cynnwys cyflogau a chostau teithio a chynhaliaeth.

Efallai y bydd angen i gynghorwyr deithio ymhellach nag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd tra bydd yr Awdurdodau Cysgodol yn bodoli. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, tybiwyd y byddai angen i bob Cynghorydd a etholid i'r Awdurdod Cysgodol gael £500 ychwanegol tuag at ei gostau teithio. Mae hyn yn seiliedig ar y dybiaeth y byddai adeiladau'r Cynghorau presennol yn parhau i fod ar gael ac y byddai Cynghorwyr yn fwyfwy abl i gymryd rhan mewn cyfarfodydd o bell.

Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn byddai'r ystod o gostau cydnabyddiaeth ychwanegol ar gyfer Cynghorwyd Awdurdodau Cysgodol rhwng **£6.0 miliwn a £9.3 miliwn ar gyfer Opsiwn 3a ac Opsiwn 3b**. Ceir rhagor o fanylion am yr amcangyfrifon hyn Atodiad A.

Cost hysbysebu a phenodi uwch dimau rheoli

Byddai angen i bob Awdurdodau Cysgodol sefydlu uwch dîm rheoli (yn cynnwys y Prif Weithredwr a'i dîm rheoli agos) o leiaf bedwar mis cyn 1 Ebrill 2020. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn tybiwyd y câi pob un o'r uwch swyddogion rheoli hyn eu recriwtio drwy gystadleuaeth agored. Mae hyn yn adlewyrchu'r polisi presennol lle mae angen i unrhyw swyddi uwch swyddog o fewn Awdurdodau Lleol sy'n hawlio cyflog o £100,000 ac yn uwch gael eu hysbysebu'n allanol.¹³

¹² At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn defnyddiwyd ffigur tybiannol. Mater i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fydd pennu union lefel y gydnabyddiaeth.

¹³ Nodir y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1275) fel y'i diwygiwyd yn 2014.

Tybiwyd y caiff swyddi uwch swyddog eraill (fel y'u diffinnir gan Fil cyntaf Llywodraeth Leol (Cymru)) eu llenwi drwy gystadleuaeth gaeedig ac y caiff y swyddi hyn eu trosglwyddo wedyn yn ystod y cyfnod cysgodol. Dylid nodi ei bod yn bosibl bod recriwtio uwch reolwr i'r Cynghorau Sir newydd yn fater y gallai'r Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus roi cyngor arno, felly, ni ddylid darllen y tybiaethau hyn fel datganiad o bolisi yn y maes hwn yn y dyfodol.

Mae dwy ystyriaeth o ran costau sy'n ymwneud â hysbysebu a phenodi uwch dimau rheoli newydd, sef:

- Cost hysbysebu swyddi uwch reolwyr
- Cost cyflogi uwch reolwyr ychwanegol ar gyfer y cyfnod o bedwar mis cyn 1 Ebrill 2020.

Amcangyfrifir y byddai'r broses hysbysebu a recriwtio ar gyfer uwch dîm rheoli pob Awdurdod newydd yn costio rhwng **£60,000** ac **£80,000**. Mae hyn yn seiliedig ar ymarfer recriwtio diweddar, o faint tebyg, a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

Gan y byddai **Opsiwn 3a** yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu naw Awdurdod Cysgodol newydd, amcangyfrifir mai cyfanswm cost hysbysebu a recriwtio uwch reolwyr newydd ar gyfer y pedwar mis cyn 1 Ebrill fyddai rhwng **£540,000** a **£720,000**.

Amcangyfrifir y byddai'r costau sy'n gysylltiedig â sefydlu saith neu wyth Awdurdod Cysgodol o dan **Option 3b** rhwng **£420,000** a **£640,000**.

Mae'r rhaniad rhwng uwch swyddogion a benodir o'r tu fewn i'r Awdurdodau Lleol sy'n bodoli eisoes yng Nghymru a'r rhai a benodir o rywle arall yn dibynnu ar benderfyniad nas gwnaed eto. Felly, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, tybiwyd na fyddai rhwng 20 y cant a 30 y cant o'r uwch swyddogion yn cael eu cyflogi ar hyn o bryd o fewn yr Awdurdodau presennol sy'n uno.

Byddai uwch swyddogion 'newydd' yn arwain at gostau ychwanegol dros y pedwar mis cyn 1 Ebrill 2020. Amcangyfrifir y bydd angen rhwng wyth a 15 o uwch swyddogion fesul Awdurdod Cysgodol. Tybir bod rhwng 20 y cant a 30 y cant o gyfanswm yr uwch swyddogion sydd eu hangen yn newydd i Lywodraeth Leol yng Nghymru, ynghyd â'r amcangyfrif y byddent, ar gyfartaledd, yn cael yr un cyflog â'r uwch swyddog cyffredin sy'n gweithio mewn Llywodraeth Leol ar hyn o bryd. Amcangyfrifwyd y byddai uwch reolwyr Awdurdodau Cysgodol ar gyfer **Opsiwn 3a** yn costio rhwng **£620,000** a **£1.56 miliwn** a rhwng **£480,000** a **£1.39 miliwn** ar gyfer **Opsiwn 3b**. Cost untro yw hon y byddai angen mynd iddi yn ystod y chwe mis cyn 1 Ebrill 2020.

Disgwylid i uwch reolwyr presennol sy'n llwyddo i gael swydd yn yr Awdurdodau newydd ymgymryd â gwaith yr Awdurdod Cysgodol dros y cyfnod o bedwar mis cyn

1 Ebrill 2020 fel rhan o 'fusnes fel arfer' ac, felly, ni fyddai unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â hwy. Disgwylir i'r gwaith a wneir gan yr Awdurdod Cysgodol ddisodli'r gwaith nad oes angen ei wneud mwyach ar gyfer yr Awdurdodau Lleol presennol, megis cynllunio corfforaethol ac ariannol tymor canolig.

Felly, ni phriodolwyd unrhyw gostau ychwanegol i uwch swyddogion presennol sy'n llwyddo i gael swydd yn yr Awdurdodau newydd eu sefydlu. Cydnabyddir, mewn rhai achosion, ei bod yn bosibl y bydd angen i'r Awdurdodau Lleol presennol ôl-lenwi swyddi gan ddefnyddio trefniadau gwaith dros dro, er enghraifft er mwyn sicrhau y caiff swyddi statudol eu llenwi ond ystyrir bod y costau hyn yn fach iawn ac y gellir eu hosgoi i ryw raddau drwy gydweithredu a chynllunio.

Adeiladau ar gyfer Awdurdodau Cysgodol a phwyllgorau

Disgwylir y byddai gan ystad yr Awdurdodau Lleol presennol ddigon o adnoddau i ddarparu ar gyfer yr Awdurdodau Cysgodol a'u pwyllgorau. Dim ond nifer fach o staff ychwanegol a fydd yn gweithio'n uniongyrchol i'r Awdurdodau Cysgodol yn ystod y cyfnod cysgodol a'r disgwyl yw y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd i alluogi swyddogion a Chynghorwyr i weithio o bell.

Felly, tybiwyd na fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â darparu adeiladau ar gyfer yr Awdurdodau Cysgodol.

Cyfanswm cost ychwanegol amcangyfrifedig Awdurdodau Cysgodol

Amcangyfrifir bod cyfanswm cost ychwanegol creu a rhedeg Awdurdodau Cysgodol ar gyfer yr 11 mis cyn y Diwrnod Breinio yn **Opsiwn 3a** rhwng **£16.3 miliwn a £21.9 miliwn**. Amcangyfrifwyd cost ychwanegol sy'n gysylltiedig ag etholiadau Cynghorau ar gyfer 2020/21, sydd rhwng **£1.3 miliwn ac £1.4 miliwn**.

Tabl 7: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Awdurdodau Cysgodol

Costau	2019/20		2020/21	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
Etholiadau Cynghorau	£8,324,000	£9,117,000	1,314,400	1,439,600
Costau Staff - Gweinyddol	£864,000	£1,152,000	-	-
Costau Staff - Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr	£619,000	£1,558,000	-	-
Costau Ychwanegol Cynghorwyr	£5,969,000	£9,310,000	-	-
Costau Recriwtio	£540,000	£720,000	-	-
Cyfanswm	£16,316,000	£21,857,000	£1,314,400	£1,439,600

Ar gyfer **Opsiwn 3b**, amcangyfrifir bod y costau rhwng **£16.7 miliwn a £22.4 miliwn yn 2019/20** a rhwng **£400,000 a £500,000 yn 2020/21**.

Tabl 8: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Awdurdodau Cysgodol

Costau	2019/20		2020/21	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
Etholiadau Cyngorau	£9,201,000	£10,077,000	£438,000	£480,000
Costau staff - Gweinyddol	£672,000	£1,024,000	-	-
Costau Staff - Prif Weithredwr ac Uwch Reolwyr	£481,000	£1,385,000	-	-
Costau ychwanegol Cyngorwyr	£5,970,000	£9,310,000	-	-
Costau recriwtio	£420,000	£640,000	-	-
Cyfanswm	£16,743,000	£22,436,000	£438,000	£480,000

Costau Staff

Nodwyd amrywiaeth o gostau staff posibl sy'n gysylltiedig ag uno Awdurdodau Lleol, fel a ganlyn:

- Costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar
- Costau terfynu contractau
- Costau pensiwn
- Costau cydraddoli cyflogau
- Costau adleoli
- Costau recriwtio
- Buddion heblaw cyflogau
- Costau teithio ychwanegol

O ran taliadau gadael, defnyddiwyd y system bresennol o gyfrifo'r symiau y mae gan gyflogeion hawl iddynt. Os gwneir newidiadau deddfwriaethol caiff yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ei ddiweddarau.

Costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar

Gallai fod nifer o gostau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar yn gysylltiedig ag uno Awdurdodau Lleol.

- Uwch reolwyr
- Lleihad yn nifer y staff gweinyddol
- Staff darparu gwasanaethau
- Cyngorwyr

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn ystyried costau taliadau dileu swyddi nac unrhyw gostau eraill sy'n gysylltiedig â rhaglen ehangach bosibl i ad-drefnu'r modd y darperir gwasanaethau a sicrhau arbedion drwy wella effeithlonrwydd gwasanaethau. Dylai pob Awdurdodau Lleol newydd benderfynu sut mae am fynd ati i ddarparu ei wasanaethau lleol.

Efallai y bydd yr Awdurdodau Lleol newydd yn ceisio nodi arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint yn y ffordd y maent yn darparu eu gwasanaethau, ond penderfyniadau lleol yw'r rhain a dylai eu heffaith gael eu hystyried yn y dyfodol gan yr Awdurdodau eu hunain.

Costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar ar gyfer uwch reolwyr

Tybir y byddai lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yn lleihau cyfanswm yr uwch reolwyr. Ar yr adeg hon, mae'n rhaid gwneud tybiaethau ynghylch ffurf strwythurau uwch-reoli yn y dyfodol. Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, mae'r costau dileu swyddi a allai fod yn gysylltiedig â newidiadau i strwythurau uwch-reoli wedi'u hamcangyfrif isod. Mae hyn yn faes y gallai Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried ac yn fater i'r Awdurdodau Cysgodol benderfynu arno yn y pen draw.

Mae Rheoliad 9 o Reoliadau Cyfrifon ac Archwiliadau (Cymru) (2014) yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiad Cyfrifon Awdurdod Lleol nodi'r gydnabyddiaeth a'r cyfraniad i bensiwn yr unigolyn gan y corff ar gyfer uwch gyflogeion. Mae hyn yn cynnwys prif swyddogion statudol ac anstatudol ac unrhyw un sy'n gyfrifol am reoli'r corff Llywodraeth Leol i'r graddau bod gan yr unigolyn hwnnw y pŵer i gyfarwyddo neu reoli gweithgareddau mawr y corff.

Yn seiliedig ar Ddatganiadau Cyfrifon Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15, mae 22 o Brif Swyddogion Gweithredol a 189 o uwch swyddogion. Tybiwyd, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, y câi'r swyddi hyn eu dyblygu ym mhob un o'r Awdurdodau presennol (er y cydnabyddir bod Awdurdodau gwahanol yn pecynnu cyfrifoldebau mewn ffyrdd gwahanol ar hyn o bryd). Gallai tîm rheoli nodweddiadol mewn Cyngor Sir newydd gynnwys un Prif Swyddog Gweithredol a rhwng wyth a 15 o uwch swyddogion. O dan Opsiwn 3a byddai angen lleihau cyfanswm y Prif Swyddogion Gweithredol mewn llywodraeth leol i 12 a chyfanswm yr uwch swyddogion i rhwng 96 a 180.

Byddai cyfleoedd i ddechrau rheoli gostyngiadau yn ystod y cyfnod cyn uno'r Awdurdodau Lleol, er enghraifft drwy wneud penodiadau ar y cyd neu dros dro lle y ceir swyddi gwag drwy drosiant arferol. Fodd bynnag, gan dybio na fanteisid ar gyfleoedd o'r fath, byddai'r gostyngiadau yn arwain at ddiswyddiadau, o bosibl, neu becynnau dileu swyddi neu ymddeoliad cynnar ar gyfer o leiaf 10, 13 neu 14 o Brif Swyddogion Gweithredol a rhwng o leiaf naw a 93 o uwch swyddogion ar gyfer Opsiwn 3a a 13 neu 14 o Brif Swyddogion Gweithredol a rhwng 54 a 125 o uwch swyddogion ar gyfer Opsiwn 3b. Ystyriwyd y posibilrwydd y gallai unigolion nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr Awdurdodau Presennol gael eu penodi'n Brif Swyddogion Gweithredol ac yn uwch reolwyr.

Er mwyn cyfrifo costau taliadau dileu swyddi sy'n gysylltiedig â'r gostyngiad yn nifer yr uwch swyddogion a nodwyd uchod defnyddiwyd y ffigurau canlynol. Cyfrifwyd y ffigurau ar gyfer costau o ddata Datganiadau Cyfrifon Awdurdodau Lleol:

- Cost Prif Swyddog Gweithredol, ar gyfartaledd - £154,000
- Cost ganolrifol Uwch Swyddog - £100,000

Mae amrywiaeth o delerau dileu swyddi gwahanol ar gael mewn Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd. Amcangyfrifwyd mai'r lluosydd taliad uwch cyfartalog ar gyfer Taliadau Dileu Swydd Statudol (SRP) yw 1.5 gwaith y swm statudol.

Mae hefyd yn bwysig ystyried ei bod yn bosibl y bydd rhai staff yn dewis ymddeol yn gynnar. Mae pwysau pensiwn yn faes y gallai costau fod yn gysylltiedig ag ef ac mae angen ei ystyried. Dyma pryd y caniateir i gyflogai ymddeol yn gynnar er mwyn gwella effeithlonrwydd, am fod ei swydd yn cael ei dileu neu gyda chaniatâd y cyflogwr. Mae cyfraniadau'r cyflogai a'r cyflogwr yn dod i ben ac mae buddion yn dod yn daladwy ynghynt nag a dybiwyd pan luniwyd y cynllun ac fe'u telir am fwy o amser. Mae Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) yn nodi bod gan gyflogaion dros 55 oed sy'n gadael cyflogaeth o dan amgylchiadau penodol hawl i gael pensiwn heb ei leihau.

Bydd Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried pecynnau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar yn llawn a nodir y gallai fod angen gwneud rhagor o waith actiwaraid er mwyn sicrhau bod yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol yn amcangyfrif costau ymddeol yn gynnar yn fwy cywir.

Ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, amcangyfrifwyd y byddai gan uwch swyddog rhwng 15 ac 20 mlynedd o wasanaeth, ar gyfartaledd. Tybiwyd hefyd, oherwydd y profiad sydd ei angen er mwyn cael swydd uwch swyddog, fod 40 y cant o uwch swyddogion dros 55 oed ac, felly, fod ganddynt hawl i becyn ymddeol yn gynnar yn hytrach na phecynnau dileu swyddi.

Gan ddefnyddio'r tybiaethau hyn disgwylir y byddai'r costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar rhwng **£3.6 miliwn a £10.0 miliwn ar gyfer Opsiwn 3a a £6.6 miliwn a £12.4 miliwn ar gyfer Opsiwn 3b**. Bydd hyn yn dibynnu ar y strwythurau uwch-reoli a ddewisir gan yr Awdurdodau Cysgodol. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad A.

Costau untro fyddai'r rhain a dim ond yn ystod blwyddyn gyntaf y rhaglen ddiwygio y byddent yn codi. Disgwylir i Awdurdodau Lleol geisio lleihau'r costau hyn drwy waith cynllunio effeithiol gan y Pwyllgorau Pontio a'r Awdurdodau Cysgodol.

Costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar ar gyfer staff gweinyddol

Ar hyn o bryd mae mwy na 9,000 o staff yn cael eu cyflogi mewn rolau gweinyddol o fewn Awdurdodau Lleol yng Nghymru. Mae rolau gweinyddol yn cwmparu amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys rheoli eiddo, adnoddau dynol, cyllid a gwasanaethau cyfreithiol a chaffael. Amcangyfrifodd adroddiad diweddar gan KPMG a CIPFA, sef *Welsh Local Authorities - Administrative Costs Review*,¹⁴

¹⁴ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/150612-welsh-la-admin-cost-review.pdf>

fod bron £500 miliwn y flwyddyn neu 5.9 y cant o Wariant Refeniw Gros Awdurdodau Lleol wedi'i wario ar weithgareddau gweinyddol ledled Cymru yn 2013-14. Roedd y gwerth yn amrywio'n fawr rhwng Awdurdodau o 4 y cant i 10 y cant o'r Gwariant Refeniw Gros.

Tybiwyd hefyd y byddai Opsiwn 3a a 3b yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd i leihau nifer y swyddi gweinyddol mewn Awdurdodau Lleol. Mae lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yn cynnig cyfle i sicrhau arbedion effeithlonrwydd a gwnaed tybiaethau er mwyn cyflwyno ystod o ostyngiadau posibl yn nifer y swyddi gweinyddol o ganlyniad uniongyrchol i uno Awdurdodau Lleol. Mae'r ystod hon yn amrywio gan ddibynnu ar nifer yr Awdurdodau Lleol newydd. Ar gyfer Opsiwn 3a, tybiwyd y câi nifer y swyddi gweinyddol ei lleihau rhwng 10 a 15 y cant. Mae hyn yn golygu gostyngiad o rhwng 900 a 1,400 yn nifer y swyddi gweinyddol. Ar gyfer Opsiwn 3b, mae'r ystod dybiedig rhwng 15 ac 20 y cant. Mae hyn yn adlewyrchu'r gostyngiad pellach yn nifer yr Awdurdodau Lleol a'r ffaith bod mwy o botensial i ddyblygu swyddi. Ar gyfer Opsiwn 3b mae'r ystod amcangyfrifedig rhwng 1,400 a 1,900 o swyddi gweinyddol.

Disgwylir i'r Awdurdodau Lleol presennol weithredu ar yr argymhellion a nodir yn adroddiad KPMG cyn 1 Ebrill 2020 oherwydd, ar y cyfan, nid yw'r broses o'u gweithredu'n llwyddiannus yn dibynnu ar uno Awdurdodau Lleol yn gyntaf. Defnyddiwyd nifer y swyddi gweinyddol a nodwyd yn adroddiad KPMG yn sail i gyfrifo'r costau a'r manteision a allai ddeillio o leihau nifer y swyddi gweinyddol. Disgwylir i'r ffigur hwn leihau dros y blynyddoedd cyn 1 Ebrill 2020 wrth i'r manteision effeithlonrwydd posibl gael eu gwireddu. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl rhagfynegi sut y bydd yn newid, er enghraifft, mae'n bosibl y bydd datblygiadau ym maes technoleg ddigidol yn y dyfodol yn cynnig mwy o gyfleoedd i wneud rhagor o arbedion effeithlonrwydd.

Mae'r cynlluniau dileu swyddi presennol o fewn Llywodraeth Leol wedi'u dadansoddi ac mae amrywiaeth o gynlluniau gwahanol ar waith. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys amrywiaeth o luosyddion pensiwn. Defnyddiwyd lluosydd o 1.5 yn yr enghreifftiau hyn.

Tybiwyd bod gan gyflogai presennol mewn Llywodraeth Leol tua **10 mlynedd** o wasanaeth, ar gyfartaledd. Amcangyfrifwyd hefyd, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan KPMG, fod cyflogai gweinyddol o fewn Llywodraeth Leol yn costio £32,000 y flwyddyn, ar gyfartaledd.

Gan ddefnyddio'r tybiaethau hyn, amcangyfrifir bod y costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar sy'n gysylltiedig â lleihau nifer y swyddi gweinyddol rhwng **£14.3 miliwn a £30.0 miliwn ar gyfer Opsiwn 3a a rhwng £22 miliwn a £40 miliwn ar gyfer Opsiwn 3b**. Cost untro fyddai hon y gellir ei phriodoli i 2019-20.

Dylai'r costau hyn gael eu rheoli a'u lleihau drwy waith cynllunio effeithiol gan Bwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol, gan gynnwys manteisio ar gyfleoedd i

adleoli adnoddau staff a ryddheir drwy symleiddio swyddogaethau gweinyddol. Bydd y gost hon yn amrywio gan ddibynnu ar nifer y staff sy'n gymwys i ymddeol yn gynnar ar adeg y cynlluniau, ynghyd ag amgylchiadau personol unigolion a'r penderfyniadau y bydd y Cyngorau Sir newydd yn eu gwneud ynghylch y materion hyn.

Costau taliadau dileu swyddi ac ymddeoliad cynnar ar gyfer staff sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau

Mater i'r Cyngorau Sir newydd a'u Pwyllgorau Pontio cysylltiedig a'r Awdurdodau Cysgodol fydd penderfynu sut i ddatblygu ac addasu modelau darparu gwasanaethau. Mae'n bosibl y bydd y penderfyniadau hyn yn arwain at arbedion effeithlonrwydd a chostau taliadau dileu swyddi sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau. Disgwylir i effeithiau'r penderfyniadau hyn gael eu hasesu'n llawn gan y Cyngorau Sir newydd wrth iddynt gael eu hystyried.

Costau terfynu contractau staff

Ystyrir bod modd osgoi costau terfynu contractau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â lleihau nifer y staff drwy waith cynllunio rhesymol. Mae'r costau posibl hyn yn cynnwys mân gostau sy'n gysylltiedig â therfynu contractau megis terfynu prydlesau ceir, contractau ffônau symudol a phrydlesau TGCh. Gan y bydd gan Awdurdodau Lleol gryn dipyn o amser i gynllunio ar gyfer uno, disgwylir y bydd modd osgoi'r costau yn gyfan gwbl ac, felly, nid ystyriwyd unrhyw gostau ychwanegol yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn a fyddai'n gysylltiedig â therfynu contractau bach.

Costau cynlluniau pensiwn

Gofynnodd y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus i Archwilydd Cyffredinol Cymru adolygu costau a strwythur Cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru a'r ffordd y cânt eu rheoli. Roedd adroddiad SAC yn cynnwys gwaith modelu manwl ar gyfer pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol presennol, yn seiliedig ar sefyllfaoedd ariannu amcangyfrifedig ar 31 Mawrth 2014. Roedd y gwaith modelu hwn yn seiliedig ar ddata cyfrifyddu (sy'n cyrraedd Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19) a gyhoeddwyd ar y dyddiad hwnnw ar gyfer pob Awdurdod. Mae'r gwaith modelu yn yr adolygiad yn ymdrin â dau bosibiliad cwbl ddangosol ar gyfer gostyngiad i naw Awdurdod a gostyngiad i 12 Awdurdod ac yn awgrymu y gallai Cynlluniau Pensiwn presennol Llywodraeth Leol barhau ar ôl uno Awdurdodau Lleol heb unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol yng Nghymru. Felly, ni ddisgwylir i Opsiwn 3a nac Opsiwn 3b arwain at unrhyw gostau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â chynlluniau pensiwn.

Mae adroddiad SAC yn awgrymu bod cyfleoedd i newid y ffordd y rheolir pensiynau Llywodraeth Leol yng Nghymru, a allai sicrhau arbedion effeithlonrwydd sylweddol gwerth tua £45 miliwn y flwyddyn, drwy fuddsoddiad cyffredin. Nid yw hyn yn

uniongyrchol gysylltiedig ag uno Awdurdodau Lleol ond gallai'r broses uno gynnig cyfle i fynd ati i geisio sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd hyn.

Costau cysoni cyflogau

Ar hyn o bryd mae pob Awdurdod Lleol yng Nghymru yn defnyddio'r graddfeydd cyflog a negodwyd yn genedlaethol ar gyfer y rhan fwyaf o'u staff. Er bod graddfeydd cyffredin yn cael eu defnyddio ym mhob rhan o Lywodraeth Leol cânt eu gweithredu'n wahanol gan bob Awdurdod. Byddai angen cynnal ymarfer lle mae pob un o'r Awdurdodau Lleol newydd yn mabwysiadu polisi cyflog ac yn cysoni'r amrywiadau o ran strwythur graddfeydd a thelerau ac amodau a drosglwyddwyd o'r hen Awdurdodau Lleol.

Byddai'r broses hon yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol newydd sefydlu eu dull cyson eu hunain o weithredu graddfeydd a thelerau ac amodau ym mhob rhan o'r sefydliad. Mae sawl ffordd y gall Awdurdodau Lleol ddewis cysoni eu dull o ymdrin â chyflog ar ôl iddynt uno. Ni fyddai rhai o'r dulliau yn arwain at unrhyw gostau staff ychwanegol, e.e. dull cyfartalog wedi'i bwysoli ar draws yr Awdurdodau Lleol sy'n uno.

Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn ceisio dadansoddi'r amrywiaeth eang o raddfeydd cyflog neu delerau ac amod a geir ar hyn o bryd o fewn pob Awdurdod Lleol. Byddai hyn yn rhan o'r broses cysoni cyflogau a chynhwyswyd cost ymgynghori yn yr amcangyfrif ar gyfer cysoni cyflogau.

Amcangyfrifwyd y gallai fod angen cymorth ymgynghori gwerth tua **£500,000 fesul Awdurdod Lleol newydd** ar gyfer yr ymarfer gwerthuso swyddi. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar gost amcangyfrifedig a nodir yn Achos Busnes yr Un Corff Amgylcheddol. Byddai **Opsiwn 3a** yn arwain at naw Cyngor Sir newydd a fyddai'n costio cyfanswm o tua **£4.5 miliwn**. Amcangyfrifir y byddai **Opsiwn 3b**, gyda saith neu wyth Cyngor Sir newydd, yn costio rhwng **£3.5 miliwn a £4 miliwn**. Disgwylir y bydd y gost hon wedi'i rhannu'n gyfartal dros gyfnod o dair blynedd, gyda'r Awdurdodau Cysgodol yn rheoli dechrau'r broses hon.

Er yr ystyrir nad oes modd osgoi cysoni cyflogau o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol, bydd y ffordd y mae pob Awdurdod Lleol yn dewis mynd ati i gysoni cyflogau yn fater i'w benderfynu'n lleol. Mae'r ffigurau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn darparu amrywiaeth o opsiynau posibl ond nid dyma'r holl atebion sydd ar gael o bell ffordd. Mae'r dull o gysoni cyflogau yn fater a ystyrir yn llawn gan Gomisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus.

Amcangyfrifodd adroddiad gan CIPFA, sef *Benefits and Risks of Local Government Reorganisation*¹⁵, y byddai'r cysoni cyflogau yn costio **£27 miliwn y flwyddyn**. Roedd y dull hwn yn seiliedig ar gysoni ar y cyflog cyfartalog a diogelu am gyfnod o

¹⁵ <http://www.wlga.gov.uk/publications-resources/cipfa-report-the-transitional-costs-benefits-and-risks-of-local-government-reorganisation>

un i dair blynedd. Defnyddiwyd y ffigur hwn i gyflwyno ystod o gostau cysoni yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn. Fel arall, gallai'r Awdurdodau Lleol newydd fynd ati i gydgyfeirio at gyfartaledd wedi'i bwysoli, yn seiliedig ar nifer y staff mewn Awdurdodau Lleol syn unol a'u cyflogau presennol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r dull hwn. Bydd y dull cysoni a ddewisir yn faes hollbwysig i'w ystyried ar gyfer y Pwyllgorau Pontio, yr Awdurdodau Cysgodol a'r Cynghorau Sir newydd.

Rydym wrthi'n ceisio cael rhagor o ddata ar ddosbarthiadau cyflogau'r Awdurdodau Lleol presennol. Defnyddir y data hyn i ddiweddarau'r amcangyfrifon hyn ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol.

Costau Recriwtio

Ni ddisgwylir i'r Cynghorau Sir newydd gynnal unrhyw ymarfer recriwtio sylweddol uwchlaw'r lefelau arferol, felly nid eid i unrhyw gostau ychwanegol. Mae'r costau sy'n gysylltiedig â recriwtio'r uwch dîm wedi'u trafod eisoes. Gallai gwaith cynllunio darbodus gan Awdurdodau presennol, Pwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol leihau costau recriwtio i swyddi gweinyddol pan na chaiff swyddi gwag eu llenwi.

Costau Teithio Ychwanegol

O dan Opsiynau 3a a 3b, efallai y bydd angen i staff presennol deithio ymhellach i'r gwaith ac oddi yno. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir yn lleol. Er enghraifft, os bydd Awdurdod newydd yn penderfynu cadw'r rhan fwyaf o'u swyddfeydd presennol ni fyddai fawr ddim costau teithio ychwanegol, os o gwbl. Dylai Awdurdodau Cysgodol fanteisio ar y cyfle i asesu trefniadau gwaith newydd a gwell, gan ei gwneud yn haws ac yn fwy derbyniol i staff weithio o amrywiaeth o leoliadau tra'n lleihau costau.

At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, mae costau wedi'u cynnwys ac wedi'u hamcangyfrif ar sail senario lle y disgwylir i gostau teithio gael eu lleihau i'r eithaf lle bynnag y bo'n bosibl ond gan gydnabod ei bod yn bosibl na fydd modd osgoi rhai costau. Cynhwyswyd ystod o gostau teithio ychwanegol posibl ar gyfer Opsiwn 3a ac Opsiwn 3b. Mae hyn yn tybio y gallai fod angen i rhwng 500 a 1,500 o staff ym mhob rhan o Lywodraeth Leol deithio 40 milltir ychwanegol bob dydd. Pe bai Awdurdodau Lleol yn ariannu'r gost deithio ychwanegol hon ar 45c y filltir, byddai'r gost yn amrywio o **£6 miliwn** i **£18 miliwn** dros dair blynedd. Ar ôl tair blynedd ni ddisgwylir y byddai Awdurdodau Lleol yn talu costau teithio ychwanegol. Gan ystyried y potensial ar gyfer trefniadau gwaith hyblyg gwell a phortffolios eiddo mawr Llywodraeth Leol, ystyrir bod yr ystod hon yn ddigon eang i gwmpasu'r costau teithiol ychwanegol posibl ar gyfer Opsiwn 3a a 3b.

Tabl 9: Costau Teithio Ychwanegol Amcangyfrifedig

Costau Teithio Ychwanegol	2019/20		2020/21		2021/22		Cyfanswm	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
Nifer amcangyfrifedig y staff y bydd angen iddynt deithio ymhellach	500	1,500	500	1,500	500	1,500	500	1,500
Milltiroedd ychwanegol fesul aelod o staff, ar gyfartaledd	40	40	40	40	40	40	40	40
Y gost y filltir	£0.45	£0.45	£0.45	£0.45	£0.45	£0.45	£0.45	£0.45
Cyfanswm y dydd	£9,000	£27,000	£9,000	£27,000	£9,000	£27,000	£9,000	£27,000
Diwrnodau gwaith mewn blwyddyn	225	225	225	225	225	225		
Cyfanswm y Gost	£2,025,000	£6,075,000	£2,025,000	£6,075,000	£2,025,000	£6,075,000	£6,075,000	£18,225,000

Costau taliadau dileu swyddi cynghorwyr

Mae cynghorwyr yn gwasanaethu am gyfnod penodol ac nid oes ganddynt hawl i gael unrhyw daliadau diswyddo neu ddileu swydd. Felly, ni fyddai unrhyw ostyngiad yn nifer y Cynghorwyr o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol yn arwain at gostau taliadau dileu swyddi ychwanegol.

Manteision o ran Rheoli Ystadau

Mae portffolio eiddo presennol Llywodraeth Leol yn un helaeth ac mae'n amrywio o ran maint ac ansawdd. Mae data diweddar a gymerwyd o gronfa ddata gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo Electronig (e-PIMs) Llywodraeth Cymru yn nodi bod Awdurdodau Lleol yn berchen ar bron 14,000 o eiddo gwahanol. Mae'r portffolio mawr hwn yn cynnwys tir, swyddfeydd, cyfleusterau chwaraeon a hamdden, clinigau, amgueddfeydd, meysydd parcio ac ysgolion.

Mae costau rheoli ystadau posibl yn cynnwys y canlynol:

- Gofynion o ran eiddo newydd
- Costau ailfodelu a brandio
- Taliadau rhent, colli incwm o renti a thaliadau prydles

Gofynion o ran eiddo newydd

Mae trefniadau gweithio hyblyg a datblygiadau technolegol wedi galluogi Awdurdodau Lleol i fabwysiadu ymagwedd fwy hyblyg tuag at y ffordd y mae eu cyflogeion yn gweithio. Mae hyn wedi lleihau'r angen am nifer fawr o swyddfeydd mawr ac yn golygu nad oes rhaid i bob aelod o staff deithio bob dydd i leoliad canolog. Byddai angen i'r Cynghorau Sir newydd ystyried trefniadau gwaith ond ni ddisgwylir y bydd unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â phrynu eiddo newydd.

Disgwylir y byddai'r nifer fawr o adeiladau sy'n eiddo i Awdurdodau Lleol ar hyn o bryd yn ddigonol i ddarparu ar gyfer y Cyngorau Sir newydd.

Ailfodelu a brandio

Ar hyn o bryd mae gan bob Awdurdodau Lleol yng Nghymru gyllideb ddynodedig flynyddol ar gyfer brandio a marchnata.

Byddai angen i Awdurdodau Lleol newydd ailfrandio, er enghraifft, arwyddion, gwefannau, gohebiaeth a biliau'r Dreth Gyngor. Mater i'r Cyngor Sir newydd a'u Hawdurdodau Cysgodol fyddai penderfynu ar gyflymder a graddau'r newidiadau hyn. Câi'r dull brandio a marchnata presennol a ffocws y gwaith hwnnw eu trosglwyddo'n raddol o'r Awdurdodau presennol i'r rhai newydd.

Fodd bynnag, eid i rai costau brandio untro o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol, megis arwyddion newydd ac ailgynllunio gwefannau. Unwaith eto disgwylir y byddai Awdurdodau Lleol yn ceisio lleihau'r costau hyn i'r eithaf drwy waith cynllunio effeithiol ond cynhwyswyd £300,000 fesul Cyngor Sir newydd. Amcangyfrifir y byddai hyn yn arwain at gostau yn cyfateb i **£2.7 miliwn ar gyfer Opsiwn 3a a rhwng £2.1 miliwn a £2.4 miliwn ar gyfer Opsiwn 3b.**

Taliadau rhent, colli incwm o renti a thaliadau prydles uwch

Ni ddylai'r Opsiwn hwn effeithio ar unrhyw un o'r uchod oherwydd caiff holl asedau a rhwymedigaethau'r Awdurdodau presennol eu trosglwyddo i'r Cyngorau Sir newydd. Caiff y Cyngorau hyn gyfle wedyn i symleiddio'r trefniadau hyn er mwyn cynhyrchu arbedion.

Costau Gwasanaethau TGCh

Mae costau TGCh posibl fel a ganlyn:

- Costau terfynu contractau
- Costau datblygu systemau
- Costau cynnal a chadw TGCh
- Costau hyfforddiant staff

Gwneir rhagor o waith ar y costau a manteision sy'n gysylltiedig â TGCh cyn i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol gael ei gyhoeddi. Mae'r amcangyfrifon a ddarperir yma yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael ar adeg cyhoeddi'r Bil Drafft.

Costau terfynu contractau

Bydd gan Awdurdodau Lleol gryn dipyn o amser cynllunio a dylent ystyried yr opsiynau ar gyfer uno systemau TGCh cyn gynted â phosibl, ymhell cyn 1 Ebrill 2020. Delir contractau a thrwyddedau TGCh ar sail adnewyddu treigl a disgwylir y bydd pob un ohonynt yn barod i'w adnewyddu cyn 1 Ebrill 2020. Disgwylir y byddai

Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau strategol ystyriol wrth adnewyddu a negodi contractau TGCh newydd. Drwy waith cynllunio rhesymol yn ystod y cyfnod pontio a'r cyfnod cysgodol, ni ddisgwylir y byddai Awdurdodau Lleol yn mynd i gostau yn gysylltiedig â therfynu contractau. Bydd datblygu atebon TGCh yn ystyriaeth allweddol ar gyfer Pwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol.

Costau datblygu systemau

Dros amser, byddai pob Awdurdod Lleol newydd yn rhoi systemau TGCh cyffredin ar waith ym mhob rhan o'r sefydliad. Er y byddai'n bosibl parhau i weithredu systemau ar wahân yn y byrdymor, ni ddisgwylir y byddai hon yn strategaeth hirdymor ar gyfer y Cynghorau Sir newydd. Caiff Pwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol gyfle i ystyried arfer gorau ymhlith yr Awdurdodau Lleol sy'n uno. Er bod y 22 o Awdurdodau Lleol presennol eisoes yn buddsoddi cryn dipyn yn y gwaith o ddatblygu systemau, disgwylir y bydd costau integreiddio untro yn gysylltiedig â'r broses uno. Fodd bynnag, disgwylid i arbedion gael eu gwneud yn y tymor hwy (gweler yr adran sy'n ymdrin â manteision).

Mater i bob Cyngor Sir newydd fyddai penderfynu pa mor gyflym y mae pob Awdurdod Lleol newydd yn dewis rhoi unrhyw systemau newydd ar waith. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, tybiwyd y byddai pob Cyngor Sir newydd yn cyfuno systemau dros gyfnod o dair blynedd. Byddai'r cyfnod hwn yn dechrau pan ffurfir yr Awdurdod Cysgodol (2019-20) i ddechrau ac yn parhau am y ddwy flynedd ddilynol (2020-21 a 2021-22), ar ôl i'r Cyngor newydd gael ei sefydlu.

Amcangyfrifwyd y gallai fod angen cymorth arbenigwyr ar bob Cyngor Sir newydd er mwyn goruchwyllo'r broses o roi unrhyw systemau TGCh newydd ar waith. Bydd lefel y cymorth yn dibynnu ar y systemau presennol, gofynion y system newydd a chyflymer y newid.

Lluniwyd amcangyfrif drwy ddadansoddi'r costau TGCh a oedd yn gysylltiedig â chreu Cyfoeth Naturiol Cymru a modelau cydwasanaeth sy'n bodoli eisoes ledled y DU, ynghyd â chost sefydlu canolfan cydwasanaeth yn ne-ddwyrain Cymru. Ar y sail hon, amcangyfrifwyd y gallai fod angen mynd i gostau ychwanegol yn cyfateb i rhwng £1 filiwn ac £1.5 miliwn ar gyfer pob Cyngor Sir newydd. Felly, o dan **Opsiwn 3a**, gallai fod angen buddsoddiad ychwanegol yn cyfateb i **£9 miliwn a £14 miliwn** y flwyddyn am bum mlynedd ar gyfer gwaith ymgynghori a thimau rhaglen i reoli'r broses o roi systemau TGCh newydd ar waith. Byddai'r buddsoddiad hwn yn amrywio o **£7 miliwn i £12 miliwn** ar gyfer **Opsiwn 3b**.

Disgwylir y byddai Cynghorau Sir yn ceisio lleihau'r costau hyn i'r eithaf. Tybir bod gan Awdurdodau Lleol presennol ddigon o gyfarpar TGCh a rhaglenni ar gyfer rhoi cyfarpar newydd yn lle cyfarpar presennol er mwyn bodloni gofynion unrhyw systemau newydd. Felly, ni ddisgwylir y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chyfarpar TGCh.

Costau cynnal a chadw TGCh

Ni ddisgwylir y byddai unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chynnal a chadw systemau TGCh newydd. Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yn mynd i gostau yn gysylltiedig â gwaith cynnal a chadw ac ni ragwelir y byddai'r gost i Lywodraeth Leol yn cynyddu o ganlyniad i'r broses uno a gallai'r gostyngiad yn nifer yr Awdurdod Lleol arwain at gynhyrchu arbedion yn gyffredinol.

Costau hyfforddiant staff

Byddai angen i Awdurdodau Lleol ddarparu hyfforddiant priodol ar gyfer unrhyw system TGCh newydd. Disgwylir y byddai angen darparu mwy o hyfforddiant TGCh yn ystod y flwyddyn cyn 1 Ebrill 2020 ac am y ddwy flynedd ddilynol.

Ar hyn o bryd mae Awdurdodau Lleol yn darparu rhywfaint o hyfforddiant TGCh a disgwylir i'r Cynghorau Sir newydd gynllunio ymhell ymlaen llaw ar gyfer unrhyw ofynion hyfforddiant ychwanegol a fydd yn deillio o uno Awdurdodau Lleol. Fodd bynnag, cydnabyddir na fydd yn bosibl osgoi rhai costau hyfforddi ychwanegol. Gan ddefnyddio methodoleg sy'n gyson ag Opsiwn 2, amcangyfrifir y byddai angen darparu hyfforddiant ychwanegol ym maes TGCh a fyddai'n costio **rhwng £4.0 a £4.2 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Opsiwn 3a a rhwng £3.7 miliwn a £4.0 miliwn dros dair blynedd ar gyfer Opsiwn 3b**.

Costau rheoli newid

Er mwyn cefnogi'r broses o uno Awdurdodau Lleol, disgwylir y byddai angen lefel benodol o ymgynghori allanol. Byddai hyn yn dibynnu ar y dull gweithredu a fabwysiedir gan y Pwyllgorau Pontio, yr Awdurdodau Cysgodol a'r Cynghorau Sir newydd. Fodd bynnag, fel man cychwyn, amcangyfrifir y gallai fod angen tîm bach o ymgynghorwyr ar gyfer pob proses uno yn ystod y flwyddyn cyn i Awdurdodau Lleol uno ac am y ddwy flynedd ar ôl creu Cynghorau Sir newydd. Mae hyn yn cyfateb i gyfanswm o 230 o ddiwrnodau ymgynghori ar gyfer y cyfnod o dair blynedd. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ystyrir ei fod yn lefel resymol o gymorth a chost gyfartalog fesul diwrnod ar gyfer y math hwn o waith ymgynghori.

Ar gyfer **Opsiwn 3a**, amcangyfrifir mai cyfanswm cost gwaith ymgynghori sy'n gysylltiedig â rheoli newid yw **£1 miliwn**. Mae hyn yn cynnwys £450,000 yn 2019-20 a swm pellach o £550,000 yn 2020-21 a 2021-22. Ar gyfer **Opsiwn 3b**, byddai cyfanswm y gost **rhwng £800,000 a £920,000**. Mae hyn yn cynnwys rhwng £350,000 a £400,000 yn 2019-20 a rhwng £455,000 a £520,000 yn 2020-21 a 2021-22.

Yn y ddau achos, byddai hyn ar ben unrhyw gostau ymgynghori a amcangyfrifwyd uchod ar gyfer y broses cysoni cyflogau.

Treth Gyngor

Un o egwyddorion craidd trethiant lleol yw bod trethdalwyr sy'n byw o fewn yr un ardal Awdurdod Lleol yn cyfrannu symiau cyfartal (o gymharu â'u hamgylchiadau) ar gyfer darparu gwasanaethau lleol yn yr ardal honno. Mae gan bob Awdurdod Lleol gyfrifoldeb democrataidd am benderfynu ar swm y Dreth Gyngor a godir o fewn ei ardal. Golyga hyn, pan gaiff Awdurdodau presennol eu huno, fod yn rhaid i bob Cyngor Sir newydd bennu ei lefel ei hun o Dreth Gyngor. Mewn rhai achosion, efallai y bydd hyn yn gofyn am broses gysoni er mwyn sicrhau'r un lefel o Dreth Gyngor ledled ardal y Cyngor Sir. Ni fyddai angen i hyn, o reidrwydd, gael ei gyflawni ar unwaith ar ôl creu Awdurdod newydd. Er enghraifft, gallai cyfnod pontio helpu i hyrwyddo sefydlogrwydd o ran refeniw treth a sicrhau y caiff trigolion eu diogelu rhag newidiadau sydyn o ran rhwymedigaeth Treth Gyngor. I'r gwrthwyneb, gallai cysoni lefel y Dreth Gyngor yn gynnwys arwain at system decach i'r trethdalwyr hynny y byddai eu biliau yn lleihau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir na ddylai fod angen i gyfanswm y Dreth Gyngor a gesglir gan Awdurdodau gynyddu o ganlyniad i uno Awdurdodau Lleol. Byddwn yn disgwyl i bob Pwyllgor Pontio ac Awdurdod Cysgodol asesu nodweddion penodol yr Awdurdod newydd yn ofalus, yn ogystal ag ystyried y pwysau ariannol ar aelwydydd, a defnyddio'r wybodaeth hon i bennu cyllidebau cyfredol a chynlluniau tymor canolig ar gyfer y Dreth Gyngor. Rydym yn disgwyl i Bwyllgorau Pontio ac Awdurdodau Cysgodol o leiaf ddiogelu rhag unrhyw wahaniaethau mewn lefelau Treth Gyngor yn ystod y cyfnod cyn uno Awdurdodau Lleol.

Mae'r ddeddfwriaeth gyllidol bresennol yn cynnwys amrywiaeth eang o bwerau y gellid eu defnyddio i weithredu nifer o ymagweddau polisi tuag at bennu'r Dreth Gyngor yn y dyfodol. Bydd unrhyw effaith ariannol ar y refeniw a gesglir yn lleol yn amrywio'n fawr yn ôl y canlynol:

- a) y dull gweithredu penodol a fabwysiedir o fewn pob Awdurdod, gan gynnwys hyd y cyfnod pontio;
- b) y dirwedd ariannol sy'n newid a'r graddau y mae Awdurdodau yn cynllunio'n effeithiol at y dyfodol;
- c) newidiadau yn sylfaen dreth pob Awdurdod rhwng nawr a'r dyddiad uno.

Am y rhesymau hyn, ar hyn o bryd, nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amcangyfrif yr effaith bosibl ar ffrwd refeniw'r Dreth Gyngor ar gyfer Awdurdodau Lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ymgynghori'n llawn ar unrhyw ddull arfaethedig o ymdrin â Threth Gyngor yn y dyfodol pan fydd yr amser yn iawn. Fel rhan o hyn, byddwn yn asesu effaith pob opsiwn sydd ar gael o ran y costau a'r manteision i Awdurdodau Lleol ond hefyd o ran cydraddoldeb a thegwch ar gyfer pobl leol.

Arian Ewropeaidd

Nododd y Comisiwn ei bod yn bwysig sicrhau bod ardaloedd Awdurdodau Lleol yn cyd-fynd â'r ardal 'gydgyfeirio' ar gyfer arian yr UE. Nododd y Comisiwn broblem o ran sicrhau cysondeb ag ardal gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd, sy'n gysylltiedig ag arian yr UE a lwfansau cymorth gwladwriaethol.

Ni châi Opsiwn 3 unrhyw effaith sylweddol ar y broses o ddarparu arian yr UE na chymhwysedd cysylltiedig i'w gael yn ystod cylch ariannu presennol yr UE ar gyfer 2014-2020. Ystyrir bod yr arian yn ddiogel. Mae'r rhan fwyaf o ranbarthau yn ardal gydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dal i fod yn yr ardal honno.

Ni chytunwyd ar y meini prawf ar gyfer penderfynu pwy sy'n gymwys i gael arian yr UE ar ôl 2020 eto a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu am y setliad gorau posibl mewn trafodaethau ar gyfer unrhyw raglenni newydd gan yr UE.

Mae'n bosibl y gallai Opsiynau 3b gael rhywfaint o effaith ar Gynnyrch Domestig Gros Dwyrain Cymru (drwy ei leihau) a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (drwy ei gynyddu), ond mae prif benderfynyddion newidiadau i'r ffigurau hyn yn tueddu i fod yn gysylltiedig â phrisiau cymharol a pherfformiad cymharol economi'r DU o'i chymharu â 28 o aelod-wladwriaethau'r UE.

Felly, yn seiliedig ar y wybodaeth a gyflwynwyd uchod, ni nodwyd unrhyw gostau ychwanegol na lleihad mewn arian yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

Cyfanswm y Gost Amcangyfrifedig

Mae Opsiynau 3a a 3b yn cyflwyno amrywiath o gostau ychwanegol posibl na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â'r broses uno, ynghyd â nifer o feysydd lle y gellir osgoi costau drwy waith cynllunio tymor canolig a pharatoi ar gyfer y dyfodol. Ceir hefyd amrywiaeth o feysydd lle y bydd y costau gwirioneddol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan Bwyllgorau Pontio, Awdurdodau Cysgodol a Chynghorau Sir newydd. Disgwylir i Awdurdodau Lleol leihau'r costau hyn i'r eithaf drwy waith cynllunio effeithiol.

Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru, a nodwyd uchod ar gyfer Opsiwn 3a, yn amrywio o **£99 miliwn i £229 miliwn**. Mae Gwerthoedd Presennol Net cyfatebol y costau amcangyfrifedig rhwng £86 miliwn a £209 miliwn.

Ar gyfer **Opsiwn 3b** amcangyfrifir bod cyfanswm y gost i Lywodraeth Cymru yn amrywio o **£97 miliwn i £246 miliwn**, gyda Gwerth Presennol Net sy'n cyfateb i rhwng £85 miliwn a £213 miliwn. Yn y ddau achos mae'r rhan fwyaf o'r costau amcangyfrifedig hyn yn codi yn y flwyddyn cyn 1 Ebrill 2020 a'r flwyddyn ddilynol.

Ceir rhagor o fanylion am y costau a'r Gwerthoedd Presennol Net cyfatebol yn y tablau cryno.

MANTEISION

Manteision i Lywodraeth Cymru

Ar gyfer Opsiynau 3a a 3b mae'r rhain fel a ganlyn:

- Llai o gymhlethdod
- Mwy o gydnerthedd a llai o risg o ymyrraeth
- Mwy o gyfleoedd i ddatganoli swyddogaethau
- Llai o waith gweinyddol a gweithgarwch rheoleiddio

Llai o gymhlethdod

Nododd y Comisiwn fod prosesau rheoli a systemau yn gymhleth iawn, sydd i'w briodoli i'r ffaith bod 22 o Awdurdodau Lleol a'u rhyngweithio â gweddill y Sector Cyhoeddus yng Nghymru. Dadleuodd y Comisiwn fod hyn yn golygu bod cryn dipyn o amser uwch reolwyr yn cael ei dreulio yn rheoli cydberthnasau a'r rhyngwynebau rhwng sefydliadau. Byddai lleihau nifer y rhyngwynebau a chynyddu cydffinioldeb yn gostwng y lefel hon o gymhlethdod a galluogi rheolwyr i dreulio mwy o amser yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau cyhoeddus.

Mwy o gydnerthedd a llai o risg o ymyrraeth

Dadleuodd y Comisiwn y byddai creu Awdurdodau Lleol mwy o faint yn cynhyrchu mäs critigol o arbenigedd, sgiliau, gallu ac adnoddau a fyddai'n fwy abl i reoli'r heriau demograffig ac ariannol cynyddol a nodwyd yn gynharach yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn llwyddiannus. Byddai hyn hefyd yn lleihau'r tebygolrwydd y ceid methiannau mewn gwasanaethau neu fethiannau corfforaethol ac y byddai angen i Lywodraeth Cymru ymyrryd.

Mwy o gyfleoedd i ddatganoli swyddogaethau

Pe bai creu Cyngorau Sir mwy o faint yn sicrhau manteision gallu ac adnoddau cynyddol a ddadleuwyd yn Adroddiad y Comisiwn, yna gallai mwy o swyddogaethau gael eu datganoli o Lywodraeth Cymru i'r Cyngorau Sir newydd, yn ychwanegol at bŵer cyffredinol cymhwysedd (gweler Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft). Gallai'r rhain gynnwys swyddogaethau a ddatganolwyd eisoes i Gymru neu gallent ymwneud â'r rhai a all gael eu datganoli yn y dyfodol. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl i Gymru gael ei llywodraethu ar sail egwyddor sybsidiaredd lle y caiff swyddogaethau eu datganoli i'r lefel o lywodraeth sydd yn y sefyllfa orau i'w harfer.

Llai o waith gweinyddol a gweithgarwch rheoleiddio

Byddai llai o Awdurdodau Lleol yn lleihau'r gwaith gweinyddol a'r gweithgarwch rheoleiddio a gyflawnir gan Lywodraeth Cymru. Ni ellir amcangyfrif yr arbedion a allai ddeillio o'r newid hwn ond mae manteision. Er enghraifft, byddai angen i

dasgau a gyflawnir ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru 22 o weithiau mewn perthynas â phob Awdurdod Lleol bellach gael eu cyflawni 12 o weithiau o dan Opsiwn 3a ac wyth neu naw gwaith o dan Opsiwn 3b. Mae'r tasgau hyn yn cynnwys rheoli grantiau Awdurdodau Lleol, cynhyrchu ystadegau Awdurdodau Lleol, dadansoddi cyfrifon Llywodraeth Leol, gweithgareddau rheoleiddio Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, yn ogystal â rhai Swyddfa Archwilio Cymru.

Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus

Llai o gymhlethdod

Nododd y Comisiwn y byddai'r broses uno, drwy leihau cymhlethdod, yn dod â manteision nid yn unig i Awdurdodau Lleol ond hefyd i'w partneriaid gwasanaethau cyhoeddus. Gellid symleiddio trefniadau cydweithio a fyddai'n arwain at benderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach a gwell gwasanaethau i'r cyhoedd.

Arweinyddiaeth

Mae bodolaeth nifer fawr o sefydliadau bach yn golygu bod mwy o gystadleuaeth i sicrhau'r arweinwyr, y rheolwyr a'r gweithwyr proffesiynol gorau ac, yn gyffredinol, mae'n golygu bod talent o fewn Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru wedi'i gwasgaru'n denau.

Mae hefyd yn bosibl y byddai sefydliadau mwy o faint yn cynnig rhagolygon gyrfa mwy deniadol i arweinwyr, rheolwyr a gweithwyr proffesiynol o'u cymharu â rhai llai o faint. Byddai hyn yn hyrwyddo datblygu arweinyddiaeth gryfach o fewn Llywodraeth Leol.

Er enghraifft, mewn sefydliadau llai o faint, mae'n llai tebygol y bydd gweithwyr proffesiynol yn gallu datblygu sgiliau arbenigol. Byddai llai o Awdurdodau Lleol mwy o faint yn galluogi lefel o arbenigaeth na ellir ei darparu ar hyn o bryd, o bosibl.

Manteision i Lywodraeth Leol

Mae'r manteision posibl fel a ganlyn:

- Manteision i Awdurdodau Cysgodol
- Manteision o ran gallu ac adnoddau
- Manteision o ran staff
- Manteision o ran rheoli ystadau
- Manteision o ran gwasanaethau TGCh
- Arbedion maint wrth ddarparu gwasanaethau
- Mwy o gydnerthedd ariannol

Awdurdodau Cysgodol

Byddai'r broses o sefydlu Awdurdodau Cysgodol (gan adeiladu ar waith Pwyllgorau Pontio) yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau strategol pwysig cyn 1 Ebrill 2020, gan alluogi'r Awdurdod newydd i weithredu'n effeithiol o'i ddiwrnod cyntaf. Mae'r penderfyniadau allweddol hyn yn cynnwys penodi uwch aelodau o staff, cytuno ar gynlluniau darparu gwasanaethau cychwynnol a phennu cyllideb a Threth Gyngor y flwyddyn gyntaf. Mewn prosesau ad-drefnu blaenorol yng Nghymru, mae'r Awdurdod Cysgodol wedi'i ethol yn y flwyddyn cyn y dyddiad y mae'r Awdurdod newydd wedi ymgymryd â'i holl swyddogaethau.

Nid oes unrhyw fanteision ariannol mesuradwy sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chreu Awdurdodau Cysgodol, ond ystyrir eu bod yn elfen hanfodol er mwyn sicrhau y caiff y broses uno ei gweithredu mor ddidrafferth â phosibl, gan leihau'r costau i bwrs y wlad a sicrhau atebolrwydd democrataidd llawn.

Manteision o ran gallu ac adnoddau

Nododd y Comisiwn nifer o risgiau sy'n gysylltiedig â sefydliadau llai o faint, gan gynnwys:

- Diffyg dyfnder o ran gallu strategol a gallu cyflawni
- Anhawster i ddenu a chadw arweinwyr a gweithwyr proffesiynol galluog
- Mynd i orbenion a chostau uned corfforaethol uchel

Un o'r prif fanteision sy'n gysylltiedig â chreu llai o Awdurdodau Lleol cadarnach, mwy o faint fyddai mynd i'r afael â'r risgiau hyn.

Uwch reolwyr

Ar hyn o bryd ceir amrywiaeth o strwythurau uwch-reoli o fewn Awdurdodau Lleol. Mae gan bob un o'r Awdurdodau Lleol presennol Brif Swyddog Gweithredol (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo) a thîm o uwch swyddogion. Fodd bynnag, mae cyfansoddiad yr uwch dimau rheoli hyn yn amrywio. Dengys gwybodaeth a goladwyd ac a ddadansoddwyd o Ddatganiadau Cyfrifon cyhoeddus Awdurdodau Lleol (2014-15) gostau uwch reolwyr, gan gynnwys cost Prif Swyddogion Gweithredol sy'n cyfateb i ychydig o dan £24 miliwn y flwyddyn.

Yn seiliedig ar strwythurau uwch-reoli presennol, tybiwyd y byddai angen Prif Swyddog Gweithredol a rhwng wyth a 15 o uwch swyddogion eraill ar bob Awdurdod Lleol newydd. Byddai Opsiwn 3a yn lleihau cyfanswm yr uwch reolwyr i rhwng 96 a 180, gan leihau cyfanswm yr uwch swyddogion i rhwng 9 a 93. Byddai Opsiwn 3b yn lleihau cyfanswm yr uwch swyddogion i rhwng 64 a 135, gan leihau cyfanswm yr uwch swyddogion i rhwng 54 a 125.

Amcangyfrifir bod Prif Swyddog Gweithredol presennol yn costio £154,000 y flwyddyn ar hyn o bryd a chost ganolrifol uwch swyddog yw £100,000 y flwyddyn.

Yn seiliedig ar y ffigurau hyn, ynghyd â'r dybiaeth y byddai uwch dîm rheoli yn cynnwys rhwng wyth a 15 o uwch reolwyr ynghyd â Phrif Swyddog Gweithredol (a gall fod dadleuon o blaid uwch dimau llai o faint), amcangyfrifir bod cost uwch swyddogion rhwng £11.4 miliwn a £19.8 miliwn y flwyddyn, sef gostyngiad o rhwng **£4.1 miliwn a £12.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer Opsiwn 3a.**

Tabl 10: Opsiwn 3a - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Uwch Reolwyr

Strwythur Rheoli fesul ALI	Cyfanswm y gost fesul ALI	Nifer yr ALiau	Cyfanswm y gost amcangyfrifedig	<i>£ y flwyddyn</i>
				Arbedion amcangyfrifedig
1 Prif Swyddog Gweithredol + 8 Uwch	£954,000	12	£11,448,000	£12,536,000
1 Prif Swyddog Gweithredol + 15 o Uwch	£1,654,000	12	£19,848,000	£4,136,000

Amcangyfrifwyd, drwy leihau nifer yr Awdurdodau Lleol i wyth neu 9, sef **Opsiwn 3b**, y gellid lleihau cost uwch reolwyr mewn Llywodaeth Leol rhwng **£9.1 miliwn ac £16.4 miliwn y flwyddyn.**

Tabl 11: Opsiwn 3b - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o Uwch Reolwyr

Strwythur Rheoli fesul ALI	Cyfanswm y Gost fesul ALI		Cyfanswm y Gost	<i>£ y flwyddyn</i>
	ALI	Nifer yr ALiau		Arbedion amcangyfrifedig
1 Prif Swyddog Gweithredol + 8 Uwch Reolwr	£954,000	8	£7,632,000	£16,352,000
1 Prif Swyddog Gweithredol + 15 o Uwch Reolwyr	£1,654,000	9	£14,886,000	£9,098,000

Lleihau nifer y swyddi gweinyddol

Trafodwyd lleihau cyfanswm y swyddi gweinyddol yn yr adran o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn sy'n ymdrin â chostau. Nododd adroddiad diweddar gan KPMG, *Welsh Local Authorities: Administrative Cost Review*, ystod o arbedion blynyddol y gellid eu cyflawni drwy newid y ffordd y mae Awdurdodau Lleol yng Nghymru yn rheoli eu swyddogaethau gweinyddol ar hyn o bryd. Ni fyddai'r arbedion a nodwyd yn yr adroddiad i'w priodoli'n uniongyrchol i'r broses uno. Fodd bynnag, disgwylir y byddai'r broses unol yn cynnig rhagor o gyfleoedd i symleiddio systemau gweinyddol.

Nid yw'n bosibl tybio sut y byddai Awdurdodau Lleol yn rheoli eu swyddogaethau gweinyddol yn lleol ond câi rhai rolau presennol na fyddai eu hangen mwyach yn dilyn y broses uno eu dyblygu i ryw raddau.

Yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, amcangyfrifwyd y gellid lleihau nifer y swyddi sydd eu hangen er mwyn cyflawni swyddogaethau gweinyddol rhwng 10 y cant a 15 y cant ar gyfer Opsiwn 3a a rhwng 15 y cant ac 20 y cant ar gyfer Opsiwn 3b gan y byddai'r broses uno yn dileu'r angen i ddyblygu rhai swyddogaethau 22 o weithiau. Gallai hyn arbed rhwng **£29.9 miliwn a £44.9 miliwn y flwyddyn ar gyfer**

Opsiwn 3a. Dros gyfnod o 10 mlynedd byddai'r arbedion hynny dod i gyfanswm o rhwng **£299 miliwn a £449 miliwn**. Ar gyfer **Opsiwn 3b** gellid arbed rhwng **£44.9 miliwn a £59.8 million** y flwyddyn a fyddai'n dod i gyfanswm o rhwng **£449 miliwn a £598 miliwn dros 10 mlynedd**.

Arbedion o ran staff darparu gwasanaethau

Byddai Opsiynau 3a a 3b yn cynnig cyfleoedd i rannu arfer gorau a'i roi ar waith ledled ardal ddaearyddiaeth fwy o faint, sicrhau arbedion maint a mwbwysiadu ffyrdd newydd, mwy effeithlon o weithio. Fodd bynnag, tybiwyd y byddai lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol yn lleihau nifer y staff darparu gwasanaethau. Yn gyffredinol, byddai angen llai o uwch reolwyr a Chynghorwyr, ond nid yw hyn o reidrwydd yn wir yn achos swyddogion sy'n darparu gwasanaethau lleol.

Byddai angen i'r Awdurdodau wedi'u huno ystyried sut i ddarparu eu gwasanaethau ac, yn benodol, sut i drosglwyddo i fodelau cyflawni amgen, mwy effeithlon a gwneud y defnydd gorau posibl o sianeli digidol. Penderfyniadau i'r Awdurdodau Cysgodol a'r Cynghorau Sir newydd yw'r rhain.

Buddiannau pensiwn

Byddai uno Awdurdodau Lleol yn gyfle i ystyried yr argymhellion a nodwyd yn adroddiad pensiwn SAC ar Gronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. Gallai wyth cronfa Bensiwn bresennol Llywodraeth Leol barhau i fodoli (heb unrhyw addasiadau deddfwriaethol angenrheidiol) heb unrhyw effaith negyddol na chadarnhaol ar y Cynghorau Sir newydd. Sefydlwyd cronfeydd Pensiwn presennol Llywodraeth Leol cyn creu'r 22 o Awdurdodau Lleol a gwnaethant barhau (o'r hen gronfeydd pensiwn a oedd yn seiliedig ar Siroedd) heb fod angen eu diwygio o ganlyniad i'r rhaglen ailstrwythuro lawer mwy cymhleth yn 1996.

Fodd bynnag, gallai prosesau uno gynnig cyfle unigryw i ystyried gweithredu newidiadau er mwyn sicrhau dull mwy effeithlon ac effeithiol o reoli pensiynau. Nododd adroddiad SAC arbedion effeithlonrwydd posibl gwerth tua £50 miliwn y flwyddyn; nid yw'r fantais hon yn ymwneud yn uniongyrchol ag Opsiwn 3a nac Opsiwn 3b, ond gallai gynnig cyfle i geisio sicrhau'r arbedion effeithlonrwydd hyn.

Nid yw polisi ar Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol wedi'i ddatganoli. Byddai unrhyw newidiadau y tu hwnt i gwmpas yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn a dylid ymdrin â hwy drwy broses ar wahân. Felly, ni chynhwyswyd unrhyw fanteision uniongyrchol sy'n gysylltiedig â lleihau nifer yr Awdurdodau Lleol.

Lleihau nifer y Cynghorwyr

Ar hyn o bryd mae 1,253 o Gynghorau Sir yng Nghymru. Y gydnabyddiaeth sylfaenol fesul Cynghorydd yw £13,300 y flwyddyn. Mae'r swm hwn yn cynyddu gan

ddibynnu ar rôl benodol y Cynghorydd. Cyfanswm cost Cynghorydd yng Nghymru yw ychydig dros £11,000 y flwyddyn, ar gyfartaledd. Cyfrifir y cyfartaledd hwn drwy gymryd cyfanswm cost Cynghorwyr yng Nghymru, gan gynnwys cost uwch gyflogau a threuliau, a'i rannu â nifer y Cynghorwyr. Roedd cyfanswm cost pob Cynghorydd yng Nghymru ychydig dros £21 miliwn yn 2013-14.

Byddai Opsiwn 3a yn lleihau nifer y cynghorwyr o 1,253 i rhwng 700 a 900. Ni ddisgwylir y bydd lleihau nifer y Cynghorwyr yn arwain at leihad cymesur yng nghyfanswm y gost oherwydd bydd ardaloedd y Cynghorau newydd yn fwy na'u rhagflaenwyr a bydd angen uwch strwythur tebyg ar Gynghorau o hyd, h.y. Arweinydd, Cabinet, Cadeiryddion Pwyllgorau ac ati. Gan ystyried y ffactorau hyn, amcangyfrifir y dylid arbed rhwng **£6.0 miliwn** a **£9.5 miliwn** y flwyddyn o dan Opsiwn 3a ac Opsiwn 3b.

Manteision o ran rheoli ystadau

Mae Opsiwn 3 yn darparu ystod o gyfleoedd i Awdurdodau Lleol ailstyried eu dull o reoli ystadau. Gallai'r rhain ddod â sawl mantais bosibl, sef:

- Gwerthu asedau
- Mwy o incwm o renti
- Swyddfeydd wedi'u cyfuno

Gwerthu asedau

Byddai Opsiynau 3a a 3b yn cyfuno portffolios eiddo Awdurdodau Lleol sy'n uno, gan greu ystod eang o gyfleoedd newydd i ailwerthuso gofynion o ran ystadau a cheisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd ac arbedion lle bynnag y bo'n bosibl.

Nododd Awdurdodau Lleol eiddo, peiriannau a chyfarpar gwerth £15 biliwn yn eu cyfrifon ar gyfer 2014-15. Roedd tua £10 biliwn o'r swm hwn wedi'i ddosbarthu'n Anheddau ac Adeiladau. Byddai hwn yn faes lle y dylai Awdurdodau Lleol wedi'u huno geisio rhesymoli eu hystad a cheisio nodi arbedion effeithlonrwydd. Mae Awdurdodau Lleol hefyd yn nodi asedau a ddelir i'w gwerthu ac asedau dros ben yn eu cyfrifon, er enghraifft, roedd eiddo gwerth bron **£77 miliwn** wedi'i ddosbarthu'n eiddo "a ddelir i'w werthu" yn eu Datganiadau Cyfrifon ar gyfer 2014-15 (er enghraifft mae gan e-PIMS yn dal bron 200 o asedau ar wahân fel rhai sydd ar gael). Mae eiddo a ddosberthir yn eiddo "a ddelir i'w werthu" yn cynnwys adeiladau a chyfleusterau yr ystyriwyd eu bod yn ddiangen ac amcangyfrifwyd gwerth yr eiddo hwn ar sail gwerthoedd cyfredol ar y farchnad. Fel rhan o'r broses uno, disgwylir y byddai Awdurdodau Lleol yn gwneud ymdrech i gyfuno eu portffolio eiddo yn strategol a sicrhau enillion cyfalaf drwy waredu asedau dros ben.

Nid yw referniw a gynhyrchir drwy waredu eiddo a ddosberthir yn eiddo "a ddelir i'w werthu" wedi'i gyfrifo fel mantais yma oherwydd disgwylir y câi unrhyw referniw ei

gynhyrchu p'un a fyddai Awdurdodau Lleol yn uno ai peidio. Fodd bynnag, disgwylir i'r broses uno ysgogi'r broses a dylai roi cyfle i'r Awdurdodau Lleol newydd geisio lleihau a chyfuno eu portffolio cyffredinol.

Ochr yn ochr ag asedau a ddelir i'w gwerthu, mae Awdurdodau Lleol hefyd yn nodi asedau dros ben gwerth mwy na **£150 miliwn**. Asedau y tybir nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd yw'r rhain, ond nid ydynt yn cynnwys eiddo buddsoddi nac yn bodloni meini prawf bod yn asedau a ddelir i'w gwerthu.

Drwy greu llai o Awdurdodau Lleol mwy o faint byddai cyfle i leihau'r lefel o asedau, yn ychwanegol at y rhai y nodwyd eu bod yn ddiangen eisoes, a realeiddio enillion cyfalaf drwy werthu'r asedau hyn.

Mae'n rhesymol disgwyl y gellid sylweddau cyfran fawr o werth cyfredol asedau diangen cyn gynted â phosibl.

Nododd Cyngorau yn Lloegr fod realeiddio eiddo yn fantais fawr sy'n gysylltiedig â chyfuno Awdurdodau, gan nodi ei fod yn eu galluogi i resymoli eu portffolio eiddo cyffredinol yn sylweddol ac ail-fuddsoddi cyfalaf mewn meysydd eraill. Bydd y Cyngorau Sir newydd yn etifeddu asedau gwerth mwy na £150 miliwn yr ystyrir eu bod yn ddiangen ar hyn o bryd a dylent allu nodi mwy.

Mwy o incwm o renti

Dylai'r Cyngorau Sir newydd ystyried eu dull strategol o gynhyrchu refeniw drwy eu portffolios eiddo presennol, gan wneud y defnydd mwyaf posibl o'r pŵer cymhwysedd cyffredinol (gweler Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft). Disgwylir y byddai amrywiaeth o gyfleoedd i gynyddu incwm o refeniw drwy weithredu ar raddfa fwy mewn ffordd fwy cydgysylltiedig. Ni ellir tybio unrhyw lefel o refeniw ychwanegol yma oherwydd bydd yn dibynnu ar y dull gweithredu a ddewisir gan y Cyngorau Sir newydd. Ni nodwyd unrhyw ffigur yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn.

Gofod swyddfa wedi'i gyfuno

Mae gan Awdurdodau Lleol nifer fawr o swyddfeydd ledled Cymru. Mae'r Gwasanaeth Mapio Gwybodaeth Eiddo Electronig (e-PIMS) yn nodi bod bron 500 o ddaliadau swyddfa â chyfanswm arwynebedd o 650,000 metr sgwâr. Mae'r rhain yn cynnwys portffolio o safleoedd sy'n amrywio o swyddfeydd bach iawn i'r prif Bencadlys Dinesig. Mae'r defnydd a wneir o swyddfeydd yn amrywio rhwng Awdurdodau Lleol. Mae defnydd llawn yn cael ei wneud o rai swyddfeydd ar hyn o bryd ond nid yw hynny'n wir yn achos swyddfeydd eraill.

Mater i'r Cyngorau Sir newydd yw penderfynu sut i reoli eu hystadau yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'r broses uno yn cynnig cyfle i'r Cyngorau Sir newydd gyfuno eu swyddfeydd presennol. Mae Awdurdodau wedi gwneud cryn dipyn o gynnydd o ran gweithredu mentrau megis gweithio hyblyg ac ystwyth a datblygiadau ym maes

TGCh ar gyfer gweithio gartref wrth iddynt geisio lleihau'r gofod gweinyddol sydd ei angen.

Felly, fe'i hystyrir yn rhesymol y dylai Awdurdodau Lleol geisio cynyddu canran cyfartalog y defnydd ar draws eu portffolio a gwneud y defnydd gorau posibl o dechnoleg er mwyn lleihau maint ystad yr Awdurdod Lleol yn gyffredinol. Nododd yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn ostyngiad posibl yn nifer y swyddi gweinyddol sydd eu hangen ar Awdurdodau Lleol. O ganlyniad, dylai fod angen llai o swyddfeydd. Amcangyfrifwyd y byddai gostyngiad uniongyrchol gysylltiedig mewn gwariant sy'n gysylltiedig â safleoedd o rhwng **£2.9 miliwn** a **£4.4 miliwn** y flwyddyn ar gyfer **Opsiwn 3a** a rhwng **£4.4 miliwn** a **£5.9 miliwn** y flwyddyn ar gyfer **Opsiwn 3b**. Defnyddiwyd amcangyfrif o faint mae'n costio i ddarparu lle ar gyfer aelod llawn amser.

Dim ond i un maes lle y gellid nodi arbedion a llai o ofynion y mae'r ystod hon yn gymwys. Er enghraifft, disgwyliid arbedion pellach hefyd o ganlyniad i leihau nifer yr uwch swyddi a'r Cyngorwyr. Dylid ystyried mai'r ystod uchod yw'r lefel isaf o arbedion posibl.

Manteision o ran gwasanaethau TGCh

Byddai cyfleoedd i'r Cyngorau Sir newydd resymoli eu systemau presennol, mabwysiadu ffyrdd mwy effeithlon o weithio a chyflawni arbedion drwy lai o gontractau mwy o faint a chostau is o ran caledwedd. Byddai hyn yn cynnig cyfle i ystyried arbedion effeithlonrwydd ac arbedion ariannol sy'n gysylltiedig â llai o gontractau ar wahân â darparwyr gwahanol, gan fabwysiadu dull gweithredu cyson ar draws sefydliad mwy o faint er mwyn gynyddu gweithrediad a sicrhau systemau TGCh mwy cost-effeithiol.

Byddai'r broses uno yn cynnig cyfle i nodi systemau TGCh presennol sy'n perfformio'n dda a'u cyflwyno ar raddfa fwy, gan rannu arfer gorau ac arbedion effeithlonrwydd ag Awdurdodau eraill sy'n uno. Mae'r cyfle i ddewis y systemau sy'n perfformio orau o fewn pob Cyngor Sir newydd yn fantais a dylai arwain at arbedion ariannol ynghyd â pherfformiad gwell.

Bydd amrywiaeth eang o gyfleoedd TGCh newydd ar gael a'r Cyngor Sir newydd a fydd yn gyfrifol am sicrhau ei fod yn dod o hyd i ateb sy'n cynnig y gwerth gorau am arian.

Wrth gwrs, byddai hefyd gyfle, fel rhan o opsiwn uno, i weithredu dull yn seiliedig ar gydwasanaethau gweinyddol, fel y nodwyd o dan Opsiwn 2 uchod, er budd yr Awdurdodau sy'n unol. Gallai hyn ddod â rhagor o fanteision sylweddol i'r Cyngorau Sir newydd.

Manteision Eraill i Lywodraeth Leol

Mwy o gydnerthedd ariannol a gwaith rheoli trysorlys

Dylai creu awdurdodau wedi'u huno â chyllidebau mwy o faint, portffolios asedau mwy o faint, sylfeini treth mwy amrywiol, mwy o drosoledd a phŵer prynu ac ati olygu eu bod yn fwy abl i wrthsefyll amrywiadau mewn amodau economaidd a chymdeithasol a meithrin eu gallu i fanteisio ar gyfleoedd buddsoddi a rheolaeth ariannol mwy strategol.

Er enghraifft, nid yw'r sylfaen Dreth Gyngor (h.y. y cymysgedd o eiddo a'r gyfran ym mhob band Treth Gyngor) wedi'i ddsbarthu'n gyfartal rhwng y 22 o Awdurdodau Lleol presennol. Byddai uno Awdurdodau Lleol yn lleihau'r lefelau presennol o anghysondeb ac yn creu awdurdodau â sylfeini treth mwy cyfartal.

Mae pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol presennol yn cyflawni gweithgareddau rheoli trysorlys er mwyn sicrhau, os oes ganddynt wagedau arian parod byrdymor neu hirdymor, fod y gwagedau yn cynhyrchu cymaint o incwm â phosibl. Byddai'r broses uno yn sicrhau mwy o fâs critigol ac, felly, fwy o bŵer prynu yn y farchnad fuddsoddi. Byddai hefyd yn lleihau'r angen am 22 o gontractau ar wahân â chynghorwyr rheoli trysorlys.

Manteision eraill i Lywodraeth Leol

Mae tystiolaeth gan Awdurdodau Lleol yn Lloegr sydd wedi bod drwy broses uno neu brosesau tebyg yn ddiweddar yn awgrymu eu bod wedi cael manteision ehangach na'r rhai a nodwyd cyn iddynt uno. Er enghraifft, drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, llunio cynlluniau ariannol pum mlynedd a lleihau dyblygu tasgau, mae Gorllewin Swydd Gaer wedi llwyddo i fynd i'r afael i'r gostyngiadau cyllidol mawr y mae wedi'u hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac mae mewn sefyllfa dda i reoli gostyngiadau pellach yn y dyfodol¹⁶.

Mae Awdurdodau yn Lloegr sydd wedi uno'n ddiweddar hefyd wedi nodi eu bod wedi llwyddo i gyflawni mwy o arbedion nag a nodwyd yn wreiddiol, gydag un Awdurdod yn nodi, ar ôl tair blynedd, ei fod wedi llwyddo, mewn rhai meysydd, i arbed cymaint ag 20 – 25 y cant o gyfanswm y gwariant¹⁶. Maent hefyd yn nodi eu bod wedi llwyddo i ad-dalu'r buddsoddiad mewn tua dwy flynedd a bod yr arbedion a gyflawnwyd yn fwy nag a fwriadwyd.

Cyflawnwyd arbedion ychwanegol mewn meysydd gwahanol i'r rhai a ddisgwyliwyd i ddechrau, ac roedd rhesymoli a gwaredu asedau dros ben er mwyn ariannu seilwaith newydd a phrosiectau buddsoddi yn un o'r meysydd allweddol.

O ganlyniad i newid, bu'n bosibl i Awdurdodau yn Lloegr reoli'r galw yn fwy effeithiol, darparu gwasanaethau yn y ffyrdd gorau posibl a rhannu arfer gorau.

¹⁶ <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/localgov/151118-costs-and-benefits-en.pdf>

Gyda synnwyr trannoeth, nododd Awdurdodau yn Lloegr fod y broses ad-drefnu Llywodraeth Leol yr aethant drwyddi yn haws na'r disgwyl a'u bod wedi cyflawni mwy o arbedion nag a ragwelwyd.

OPSIWN 3: CRYNODEB O'R MANTEISION

Mae Opsiynau 3a a 3b yn cyflwyno amrywiaeth eang o gyfleoedd, ni ellir mesur cyfran o'r rhain ond ni ddylid eu hanwybyddu. Ymhlith rhai o'r manteision allweddol mae'r canlynol:

- Mwy o gydnerthedd ariannol a gwaith rheoli trysorlys
- Llai o gymhlethdod
- Arbedion o ran staff darparu gwasanaethau
- Manteision o ran rheoli ystadau

Ar gyfer **Opsiwn 3a**, ochr yn ochr â'r manteision na ellir eu mesur, nodwyd ystod amcangyfrifedig o **arbedion gwerth rhwng £43 miliwn a £71 filiwn y flwyddyn**, ynghyd â derbyniadau cyfalaf posibl drwy resymoli ystadau. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion rhwng 2020-21 a 2029-30 **rhwng £430 miliwn a £713 miliwn**, gyda Gwerth Presennol Net o rhwng £323 miliwn a £535 miliwn.

Ar gyfer Opsiwn 3b, ochr yn ochr â'r manteision na ellir eu mesur, nodwyd ystod amcangyfrifedig o **arbedion gwerth rhwng £64 miliwn a £92 filiwn y flwyddyn** hefyd. Amcangyfrifir bod cyfanswm yr arbedion rhwng 2020-21 a 2029-30 rhwng **£644 miliwn a £915 miliwn**, gyda Gwerth Presennol Net o rhwng £483 miliwn a £687 miliwn.

Dylid ystyried mai'r ffigurau hyn yw'r lefel isaf o fanteision sydd ar gael, gyda Chynghorau Sir newydd yn cael amrywiaeth eang o gyfleoedd y dylent fanteisio arnynt er mwyn ceisio sicrhau rhagor o fanteision.

OPSIWN 3A: TABLAU CRYNO

Tabl 12: Crynodeb o Arbedion Opsiwn 3a

													£,000
		2020/21		2021/22		2022/23		2023/24 i 2029/30		Cyfanswm		GPN	
		Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
<u>Arbedion Llywodraeth Leol</u>													
<u>Arbedion o ran Staff</u>													
Gostyngiad yn nifer y Prif Weithredwyr a'r uwch swyddi		£4,136	£12,536	£4,136	£12,536	£4,136	£12,536	£28,952	£87,752	£41,360	£125,360	£31,025	£94,034
Gostyngiad yn nifer y swyddi gweinyddol		£29,920	£44,880	£29,920	£44,880	£29,920	£44,880	£209,440	£314,160	£299,200	£448,800	£224,433	£336,649
Gostyngiad yn nifer y Cynghorwyr		£6,040	£9,463	£6,040	£9,463	£6,040	£9,463	£42,282	£66,238	£60,403	£94,625	£45,309	£70,979
 <u>Rheoli Ystadau</u>													
Gostyngiad mewn costau rhedeg		£2,935	£4,402	£2,935	£4,402	£2,935	£4,402	£20,544	£30,815	£29,348	£44,022	£22,014	£33,021
Cyfanswm yr Arbedion i Lywodraeth Leol		£43,031	£71,281	£43,031	£71,281	£43,031	£71,281	£301,218	£498,965	£430,311	£712,807	£322,781	£534,684

Tabl 13: Crynodeb o Arbedion Opsiwn 3a

	£,000																			
	2016/17		2017/18		2018/19		2019/20		2020/21		2021/22		2022/23		2023/24		Cyfanswm		GPN	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
<u>Costau Llywodraeth Cymru</u>																				
Tim Cymorth Llywodraeth Cymru	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	-	-	-	-	-	-	-	-	£7,859	£7,859	£7,469	£7,469
Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Cymru	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	-	-	-	-	-	-	-	-	£7,859	£7,859	£7,469	£7,469
<u>Costau Llywodraeth Cymru</u>																				
<u>Costau Staff</u>																				
Awdurdod Cysgodol	-	-	-	-	-	-	£16,316	£21,857	£1,314	£1,440	-	-	-	-	-	-	£17,630	£23,297	£15,862	£20,968
Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar (Uwch Aelodau o Staff a Phrif Swyddogion Gweithredol)	-	-	-	-	-	-	£3,568	£10,042	-	-	-	-	-	-	-	-	£3,568	£10,042	£3,218	£9,057
Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar (Swyddi Gweinyddol)	-	-	-	-	-	-	£14,349	£29,992	-	-	-	-	-	-	-	-	£14,349	£29,992	£12,942	£27,051
Cysoni Cyflogau	-	-	-	-	-	-	£2,250	£2,250	£2,250	£29,250	-	£27,000	-	£27,000	-	-	£4,500	£85,500	£3,990	£72,217
Teithio ychwanegol	-	-	-	-	-	-	£2,025	£6,075	£2,025	£6,075	£2,025	£6,075	-	-	-	-	£6,075	£18,225	£5,296	£15,888
<u>Gwasanaethau TG</u>																				
Datblygu Systemau	-	-	-	-	-	-	£9,000	£13,500	£9,000	£13,500	£9,000	£13,500	£9,000	£13,500	£9,000	£13,500	£45,000	£67,500	£30,860	£46,290
Hyfforddiant TG Ychwanegol	-	-	-	-	-	-	£1,325	£1,403	£1,325	£1,403	£1,325	£1,403	-	-	-	-	£3,974	£4,208	£3,464	£3,668
<u>Costau Eraill</u>																				
Ailfodelu a Brandio	-	-	-	-	-	-	£2,700	£2,700	-	-	-	-	-	-	-	-	£2,700	£2,700	£2,435	£2,435
Rheoli Newid	-	-	-	-	-	-	£450	£450	£360	£360	£225	£225	-	-	-	-	£1,035	£1,035	£909	£909
Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Leol	-	-	-	-	-	-	£51,983	£88,269	£16,274	£52,027	£12,575	£48,203	£9,000	£40,500	£9,000	£13,500	£98,831	£228,998	£86,050	£209,095
Cyfanswm y Gost	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£53,947	£90,233	£16,274	£52,027	£12,575	£48,203	£9,000	£40,500	£9,000	£13,500	£106,690	£250,357	£93,519	£216,564

OPSIWN 3B: TABLAU CRYNO

Tabl 14: Opsiwn 3b – Crynodeb o'r arbedion amcangyfrifedig

	£,000											
	2020/21		2021/22		2022/23		2023/24 i 2029/30		Cyfanswm		GPN	
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf
<u>Arbedion Llywodraeth Leol</u>												
<u>Arbedion o ran Staff</u>												
Gostyngiad yn nifer y Prif Weithredwyr a'r uwch swyddi	£9,098	£16,352	£9,098	£16,352	£9,098	£16,352	£63,686	£114,464	£90,980	£163,520	£68,245	£122,658
Gostyngiad yn nifer y swyddi gweinyddol	£44,880	£59,840	£44,880	£59,840	£44,880	£59,840	£314,160	£418,880	£448,800	£598,400	£336,649	£448,866
Gostyngiad yn nifer y Cynghorwyr	£6,040	£9,463	£6,040	£9,463	£6,040	£9,463	£42,282	£66,238	£60,403	£94,625	£45,309	£70,979
<u>Rheoli Ystadau</u>												
Gostyngiad mewn costau rhedeg	£4,402	£5,870	£4,402	£5,870	£4,402	£5,870	£30,815	£41,087	£44,022	£58,696	£33,021	£44,029
Cyfanswm yr Arbedion i Lywodraeth Leol	£64,421	£91,524	£64,421	£91,524	£64,421	£91,524	£450,944	£640,669	£644,205	£915,241	£483,225	£686,532

Tabl 15: Opsiwn 3b - Crynodeb o'r arbedion amcangyfrifedig

	2016/17		2017/18		2018/19		2019/20		2020/21		2021/22		2022/23		2023/24		Cyfanswm		GPN		£,000
	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	Isaf	Uchaf	
<u>Costau Llywodraeth Cymru</u>																					
Tim Cymorth Llywodraeth Cymru	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	-	-	-	-	-	-	-	-	£7,859	£7,859	£7,469	£7,469	
Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Cymru	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	-	-	-	-	-	-	-	-	£7,859	£7,859	£7,469	£7,469	
<u>Costau Llywodraeth Leol</u>																					
<u>Costau Staff</u>																					
Awdurdod Cysgodol	-	-	-	-	-	-	£16,743	£22,436	£438	£480	-	-	-	-	-	-	£17,181	£22,916	£15,483	£20,654	
Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar (Uwch Aelodau o Staff a Phrif Swyddogion Gweithredol)	-	-	-	-	-	-	£6,633	£12,392	-	-	-	-	-	-	-	-	£6,633	£12,392	£5,983	£11,177	
Taliadau Dileu Swyddi ac Ymddeoliad Cynnar (Swyddi Gweinyddol)	-	-	-	-	-	-	£21,523	£39,989	-	-	-	-	-	-	-	-	£21,523	£39,989	£19,413	£36,068	
Cysoni Cyflogau	-	-	-	-	-	-	£1,750	£2,000	£1,750	£29,000	-	£27,000	-	£27,000	-	-	£3,500	£85,000	£3,103	£71,774	
Teithio Ychwanegol	-	-	-	-	-	-	£2,025	£6,075	£2,025	£6,075	£2,025	£6,075	-	-	-	-	£6,075	£18,225	£5,296	£15,888	
<u>Gwasanaethau TG</u>																					
Datblygu Systemau	-	-	-	-	-	-	£7,000	£12,000	£7,000	£12,000	£7,000	£12,000	£7,000	£12,000	£7,000	£12,000	£35,000	£60,000	£29,504	£50,578	
Hyfforddiant TG Ychwanegol	-	-	-	-	-	-	£1,247	£1,325	£1,247	£1,325	£1,247	£1,325	-	-	-	-	£3,740	£3,974	£3,261	£3,464	
<u>Costau Eraill</u>																					
Ailfodelu a Brandio	-	-	-	-	-	-	£2,100	£2,400	-	-	-	-	-	-	-	-	£2,100	£2,400	£1,894	£2,165	
Rheoli Newid	-	-	-	-	-	-	£350	£400	£280	£320	£175	£200	-	-	-	-	£805	£920	£707	£808	
Cyfanswm y Gost i Lywodraeth Leol	-	-	-	-	-	-	£59,371	£99,017	£12,740	£49,200	£10,447	£46,600	£7,000	£39,000	£7,000	£12,000	£96,558	£245,816	£84,644	£212,576	
Cyfanswm y Gost	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£1,965	£61,336	£100,982	£12,740	£49,200	£10,447	£46,600	£7,000	£39,000	£7,000	£12,000	£104,416	£253,675	£92,113	£220,046	

Asesiadau o Effeithiau Penodol

Mae cyfres o asesiadau o effeithiau penodol wedi'u cwblhau fel rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

Yr Iaith Gymraeg

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

O dan gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru mae'n ofynnol asesu effeithiau deddfwriaeth sylfaenol arfaethedig ar yr Iaith Gymraeg.

Cydraddoldeb

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EIA)

Hawliau Plant

Gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant (CRIA)

Yr Opsiwn a Ffefrir

Nid yw gwneud dim yn opsiwn a ffefrir gan nad yw'n ymateb i argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoddus. Byddai gwneud dim yn colli'r cyfle i sicrhau arbedion sylweddol, rhai y gellir eu cyfri a rhai heb fod yn ariannol, sy'n hanfodol at sicrhau bod Awdurdodau Lleol yn medru parhau i gyflenwi a gwella amrediad eang o wasanaethau lleol gwerthfawr. Mae'n colli'r cyfle am newid trawsnewidiol a fyddai'n gosod Awdurdodau Lleol yng nghanol eu cymunedau, yn chwarae rhan hyfyw yn llywodraethu Cymru o dan setliad datganoli newydd.

Mae'r opsiwn yn mentro peryglon sylweddol o fethiant gwasanaethau a methiant corfforaethol. Mae colli'r cyfle i sicrhau arbedion net o dros £500 milwn dros y 10 mlynedd nesa, yn erbyn cefndir o gyni parhaus, yn opsiwn na ddylid ei ganlyn ymhellach.

Nid yw Opsiwn 2 yn opsiwn a ffefrir ychwaith. Er y byddai Cydwasanaeth Gweinyddol yn mynd peth o'r ffordd at sicrhau amrediad o arbedion ariannol, nid yw'n ymateb i'r cwestiynau ynghylch arweinyddiaeth, cymhlethdod a chyflenwi gwasanaethau sy'n wynebu Awdurdodau Lleol a'u partneriaid gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Byddai Opsiwn 2 yn galw am gydweithio sylweddol ar draws Cymru, heb warant y gellid cyflawni hyn.

Byddai Opsiwn 3a a 3b yn ymateb yn gadarnhaol i argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Dewisiwyd Opsiwn 3b fel yr opsiwn a ffefrir gan ei fod yn cynnig y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad gan y Comisiwn y dylid lleihau cymhlethdod mewn Llywodraeth Leol ac ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yn gyffredinol. Mae hefyd yn sicrhau bod gan y Cynghorau Sir newydd y màs critigol a'r cydnerthedd strategol er mwyn iddynt allu ateb y galw cynyddol am wasanaethau, mewn amgylchedd lle y ceir pwysau economaidd cynyddol. Lleddfir y peryglon o golli atebolrwydd democrataidd a chysylltiadau cymunedol drwy'r diwygiadau a ystyrir yn Rhan 2 o'r AER hwn.

Felly, caiff y cynigion polisi eraill yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn eu hystyried yng nghyd-destun yr opsiwn a ffefrir achaff pob ystyriaeth bolisi ei dadansoddi mewn amgylchedd lle y ceir wyth neu naw Awdurdod Lleol.

Gwneir hyn am fod y newidiadau a nodir yn Rhan 2 o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn seiliedig ar greu Cynghorau Sir newydd. Fel y nododd y Comisiwn, mae angen newid strwythurol a chyfansoddiadol. Ni fyddai gweithredu'r naill heb y llall yn ddigon i alluogi Llywodraeth Leol i ateb yr heriau a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn. Mae rhai o'r cynigion hyn, megis pwyllgorau ardaloedd cymunedol, wedi'u llunio'n benodol i fynd i'r afael â phryderon y Comisiwn ynghylch y ffaith y byddai Awdurdodau mwy o faint yn rhy bell o'r boblogaeth a wasanaethir ganddynt.

Yr Opsiwn a ffefrir yw i weithredu newid strwythurol a chyfansoddiadol er mwyn rhoi i Awdurdodau Lleol y fframwaith orau bosib i fod yn effeithiol yn eu rhan fel arweinwyr cymunedol a chyflenwir gwasanaethau. Ni fydd newid graddol yn ddigon i ymateb i'r heriau systemig, ariannol, demograffig, arweinyddol a pherfformiadol y byddant yn eu wynebu yn y dyfodol. Newdi trawsnewidiol ar raddfa ddigyffelyb yw'r unig Opsiwn sy'n rhoi'r cyfle i ymateb i'r heriau hyn.

Rhestr o Dablau

Siart 1: Poblogaeth sy'n heneiddio a newidiadau mewn patrymau ariannu, rhwng 2011 a 2025.....	6
Siart 2: Cyfanswm Cymorth Llywodraeth Ganolog ar ffurf Cyllid Allanol Cyfun i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, yn Nhermau Arian Parod.....	8
Siart 3: Cyfanswm Cymorth Llywodraeth Ganolog ar ffurf Cyllid Allanol Cyfun i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, ym mhrisiau 2015-16.....	8
Siart 4: Gwariant Llywodraeth y DU ar Wasanaethau Cyhoeddus	9
Siart 5: Senarios Ariannu o ran Cyllid Allanol Cyfun Awdurdodau Lleol yn y Dyfodol	10
Tabl 1: Opsiwn y Cydwasanaeth Gweinyddol – Crynodeb o'r Costau	31
Tabl 2: Opsiwn y Cydwasanaeth Gweinyddol – Crynodeb o'r Arbedion	31
Tabl 3: Uno Awdurdodau Lleol - Opsiwn 3a	33
Tabl 4: Wyth Awdurdod Lleol	34
Tabl 5: Naw Awdurdod Lleol	35
Tabl 6: Costau Staff Cymorth Llywodraeth Cymru	37
Tabl 7: Opsiwn 3a - Cost Amcangyfrifedig Awdurdodau Cysgodol.....	43
Tabl 8: Opsiwn 3b - Cost Amcangyfrifedig Awdurdodau Cysgodol.....	44
Tabl 9: Costau Teithio Ychwanegol Amcangyfrifedig.....	51
Tabl 10: Opsiwn 3a - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o ran Uwch Reolwyr	60
Tabl 11: Opsiwn 3b - Yr Arbedion Amcangyfrifedig o Uwch Reolwyr	60
Tabl 12: Crynodeb o Arbedion Opsiwn 3a.....	67
Tabl 13: Crynodeb o Arbedion Opsiwn 3a.....	68
Tabl 14: Opsiwn 3b – Crynodeb o'r arbedion amcangyfrifedig	69
Tabl 15: Opsiwn 3b - Crynodeb o'r arbedion amcangyfrifedig.....	70